

Buddugoliaeth ...Ond angen gweithredu ar fyrder.



Fel roedd Eco'r mis diwethaf yn cyrraedd eich cartref, roedd datganiad o'r pwys mwyaf i drigolion y fro yn cael ei ryddhau i'r wasg. I'r rhai ohonoch sy'n dilyn colofn Hugh P. Hughes – 'Ar ben arall y lein' – rydych yn ymwybodol o ymgyrch hir-hoedlog y Gymdeithas Bysgota leol i geisio datrys y llygredd yn Llyn Padarn

sy'n bygwth bodolaeth y torgoch ac yn difwyno'r dyfroedd mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. (Pwy all anghofio'r algae gwyrdd afiach fu'n mygu'r llyn yn ystod 2009?)

Parhad Tudalen3

Rhifyn
Gorffennaf

Copi i law
Mehefin 15

Bwndelu
Mehefin 26

Ble
Bethel

RHIF 422 Mehefin 2014

Argraffwyd gan
Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Straeon ac erthyglau
ar e-bost i
Dafydd Whiteside Thomas
Bron y Nant, Llanrug
01286 673515
ecorwyddfa@gmail.com

CADEIRYDD
Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynnaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (238495)
glasgoed@hotmail.com

TREFNYDD HYSBYSEBION
Eifion Roberts, Swŷn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (01286 674839)

TREFNYDD BWNDELU
Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI
DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Rhiannon Roberts,
Cefn Rhos Isaf, Penrhos.
rhiannonmai@btinternet.com

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Swŷn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Kate Pritchard (872331)
neu econantperis@hotmail.com

PENISARWAUN:
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

gosodwyd gan

grid 76
dylunio graffeg
07766956673

LLYTHYRAU

Annwyl Olygydd

Cinio Dathlu Penweddig yn 40

Mae Ysgol Gyfun Penweddig, Aberystwyth, yn 40 eleni – ac rydym yn gwahodd cyn-athrawon a chyn-ddisgyblion i ymuno yn y dathlu ddydd Sadwrn, 28 Mehefin 2014!

Cynhelir diwrnod agored anffurfiol yn yr ysgol yn ystod y prynhawn gyda lluniaeth ysgafn, ac yna cynhelir bwffe yng ngwesty'r Belle Vue am 7pm. Gellir archebu tocyn ar gyfer y bwffe fel unigolyn neu fel grwp – beth am drefnu aduniad o'ch blwyddyn o fewn y parti mawr? Bydd yn gyfle gwych i ymlacio ac i gael hwyl yng nghwmni ffrindiau ac i adnewyddu cyfeillgarwch. Mae sawl un eisoes wedi rhoi hen luniau ar fenthyg i'r ysgol ar gyfer arddangosfa yn ystod y diwrnod agored a gallwch hefyd weld detholiad dwy ymweld â www.facebook.com/Penweddig40. Gallwch ebostio unrhyw gyfraniadau at ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk neu dewch â nhw gyda chi.

Felly ffoniwch yr ysgol ar (01970) 39499 i archebu tocyn/tocynnau'r bwffe, £15 y pen ar unwaith – rhag i chi golli'r cyfle.

Y cyntaf i'r felin gaiff falu!

Yn gywir
Mark Watkins

Swyddog Gwybodaeth a Chyfathrebu

Yn ystod y mis diwethaf....

- Daeth buddugoliaeth i'r Gymdeithas Bysgota leol yn ei brwydr hir i gael tegwch a gwrandawriad yn eu hymgyrch i sicrhau gwarchod Llyn Padarn rhag llygredd ac achub y torgoch rhag difodiant. Yn ddiddorol iawn mae Diwrnod Bioamrywiaeth yn cael ei gynnal yn Llanberis ar ddechrau Mehefin i dynnu sylw at amgylchedd unigryw y llyn a'r modd y gall pobl leol helpu i'w warchod. Noddir y diwrnod yn rhannol gan Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru. A hyn yn dilyn y datganiad cyfreithiol yn gynharach y mis hwn. Cyd-ddigwyddiad tybed....?

- Cynhaliwyd Triathlon Llanc y Llechi yn Llanberis. Digwyddiad hynod lwyddiannus a ddenodd tua mil a hanner o gystadleuwyr i'r ardal, heb son am eu teuluoedd a chefnogwyr. Bu'r digwyddiad yn hwb sylweddol i'r economi leol. Yn ystod yr un wythnos hefyd rhyddhawyd ystadegau gan Lywodraeth Cymru yn dangos fod sector gweithgareddau awyr-agored y diwydiant twristaidd yn werth £481 miliwn i'r economi, gyda gogledd Cymru yn arwain, ac ardal bro'r "Eco" yn sicr yn elwa. Roedd 54% o'r rhai oedd yn aros noson yn adrodd na fyddent wedi ymweld a Chymru onibai eu bod yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd awyr-agored. A Chyngor Gwynedd yn anfon wardeiniaid traffic i'r pentref i roi croeso twym-galon i bawb oedd yn methu darganfod lle addas i barcio! Pam yn enw rheswm na ellir cynnig parcio am ddim ar safle Glyn Rhonwy yn ystod digwyddiadau o'r fath? A pham nad oes defnydd yn cael ei wneud bellach o'r wyneb caled rhwng maes parcio Castell Dolbadarn ac afon y Bala?

- Mae'r rhifyn hwn yn dathlu nifer helaeth o lwyddiannau lleol – yn ddiwylliannol ac ym myd chwaraeon. Llongyfarchwn ein hieuenctid a'n hoedolion ar eu llwyddiant a'u gwobrau haeddiannol. Ac erbyn i'r rhifyn hwn gyrraedd eich cartref mae'n siwr y bydd mwyo lwyddiannau wedi dod i'r fro yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Aelod o'r teulu neu ffrind wedi gadael yr ardal?

Beth am i ni anfon copi o'r Eco iddynt bob mis

Gallwn anfon copiau drwy'r post neu dros y we.

Cost anfon drwy'r post am flwyddyn - o fewn Prydain: £18.00

Cost anfon dros y we am flwyddyn - £6.00

Cysylltwch ag Olwen Hughes ar
01286-674839 neu olwenwaen@yahoo.co.uk

RHODDION

Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

£40: Helen Munro, Llanrug.

£20: John H. Hughes, Ffordd
Capel Coch, Llanberis.

£14: Arwyn Thomas,
Stourbridge; Rheon Thomas,
Caerdydd.

£10: Teulu Enid Hughes,
31 Maes Padarn, Llanberis;
Mairwen Baylis, Ffordd
Capel Coch, Llanberis;
Mona Mai Griffiths, 2 Hafan
Elan, Llanrug; £10 Teulu
y diweddar Keith Morris,
Victoria Terrace, Llanberis.

£7: Rhianwen Griffiths, Y
Drenwydd.

£6: Mrs Closs Evans,
Porthcawl.

£5: Iola Jones, 22 Y Ddol,
Bethel; Dienw;

£4: Gwyn Williams, Llys
Myfyr, Brynrefail.

£2: Mrs Enid Jones, Talysarn

Gair gan y Golygydd.

Cafwyd trafferthion wrth drosgrlwyddo crynswth y papur o'r teipydd i'r golygydd. Canlyniad hyn oedd fod yr acen grom wedi diflannu o rai llythrennau, a'r llythrennau 'w' ac 'y' wedi diflannu'n gyfangwbl! Ceisiwyd cywiro y mwyaf i'r o'r gwallau hyn ar y funud olaf, ond ymddiheurwn os methwyd cywiro'r cyfan. Os oes '?' yng nghanol neu ar ddiwedd rhai geiriau, 'w' neu 'y' ddylai fod yno!

WAVELL'S

Bryn Ac Angela Williams


London House LLANRUG

PEN CIGYDDION Y FRO

YR WYN LLEOL MWYAF BLASUS
SELSIG CARTRE
CIGOEDD PAROD I'W BWYTA
ARCHEBION AR GYFER Y RHEWGIST
**MYNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!!**

(01286) 673574

Parhad Buddugoliaeth Ond angen gweithredu ar fyrder.



Cydnabod Archwiliad Anghyfreithlon.

Bellach, mae Cyfoeth Naturiol Cymru, y corff sy'n gyfrifol am yr amgylchedd, wedi cydnabod archwiliad anghyfreithlon i lygredd Llyn Padarn gan Dwr Cymru. Aeth Fish Legal, oedd yn cynrychioli'r Gymdeithas Bysgota leol, a Chyfoeth Naturiol Cymru i'r Uchel Lys am fethu ag ymchwilio'n gywir i weithgaredd Dwr Cymru, a hynny'n ol cyfreithiau'r Undeb Ewropeaidd(UE). Mae'n ymddangos mai un o'r rhesymau dros fethiant Cyfoeth Naturiol Cymru oedd analluedd Gweinidogion Llywodraeth Cymru i ymgorffori cyfraith yr UE i reolau cenedlaethol.

Arllwys Carthion heb eu trin.

Yn ystod yr achos daeth gwybodaeth i'r amlwg fod Dwr Cymru, ers blyneddau, wedi bod yn arllwys i'r llyn heb ganiatâd, a hynny ar brydiau yn cynnwys carthion heb eu trin. Roedd Dwr Cymru yn gynharach wedi hepgor y wybodaeth hon o'u tystiolaeth, ac wedi gwadu honiadau o'r fath gan bysgotwyr lleol ar hyd y blyneddau.

Canlyniad annigonol yr archwiliad.

Cychwynnwyd yr archwiliad ym mis Chwefror 2012 pan roddwyd rhybudd i Cyfoeth Naturiol Cymru gan Fish Legal o ddifwyno'r llyn yn ol Rheoliadau Difrod Amgylcheddol 2009. Parhaodd yr archwiliad am 17 mis.

Yn yr adroddiad terfynol dynodwyd Dwr Cymru fel y corff fu'n gyfrifol am ddifrod amgylcheddol i'r llyn, ond methodd ag asesu llawn faint effaith ei weithgaredd. Mae Fish Legal nawr wedi gorfodi Cyfoeth Naturiol Cymru i gydnabod y dylid fod wedi cysidro y difrod a wnaed dros y tymor hir, gan gynnwys difrod o weithgaredd a gychwynnodd cyn i'r gyfraith ddod i fodolaeth, ond sydd wedi achosi difrod (ac a all achosi difrod) ers hynny.

Be nesa?





Mae dyfroedd Llyn Padarn wedi eu difwyno a'u llygru ers degawdau gan arllwysiad o garthion wedi eu trin a charthion heb eu trin gan Dwr Cymru. Mae'n rhaid i Cyfoeth Naturiol Cymru bellach gysidro effaith y gweithgaredd hwn ar y llyn, ond yn ogystal, bydd yn rhaid iddynt hefyd gysidro effeithiau unrhyw weithgareddau eraill sydd wedi bod neu sydd yn andwyol i welyau dodwy'r torgoch.

Mae wedi cymryd 22 mlynedd o ymgyrchu gan y Gymdeithas Bysgota leol i gael yr awdurdodau i addef eu methiant i reoli llygredd.

Dywedodd William Rundle, prif gyfreithiwr Fish Legal, "Hyderwn y bydd yr archwiliad newydd yn cael ei wneud ar fyrder, oherwydd mae angen i'r sefyllfa wella'n sylweddol os oes achubiaeth i'r torgoch."


Llongyfarchwn y Gymdeithas Bysgota leol a'i swyddogion gweithgar ar eu llwyddiant, ond cofwn hefyd mai un buddugoliaeth yw hon mewn proses gyfreithiol gymhleth. Does ond gobeithio y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru a Dwr Cymru yn gweithredu'n gyflym i arbed y sefyllfa rhag gwaethgu, neu bydd un rhan unigryw o gyfoeth naturiol Cymru yn diflannu am byth.







dylunio graffeg/graphic design
darlunio/illustration
animeiddio/animation
graffeg arddangos/display graphics



- Cardiau Busnes
- Arwyddion
- Graffeg ar Gerbydau
- Gwefanau a mwy...

Llanrug 07766956673 gwyndaf@grid76.co.uk
gwasanaeth dwyieithog llawn/fully bilingual service



Clwb Pêl-droed Ieuenctid Deiniolen Daeth diwedd ar dymor arall, ond mae tymor y twrnments ar fin dechrau felly digon o gemau i fynd dros y misoedd nesaf. Hoffai Wayne a Glyn ddiolch i hogiau'r tîm dan 11 am eu ffyddlondeb a'u hymdrech trwy'r tymor, cafwyd lot fawr o hwyl a weithiau, lot o chwysu. Mae'n annhebygol y bydd tîm dan 12 y tymor nesaf ac felly mi fydd yn ddiwedd cyfnod ar y criw bach yma sydd wedi chwarae i Ddeiniolen ers dyddiau'r tîm dan 7. Diolch yn fawr i chi i gyd sydd wedi chwarae dros y cyfnod yma ac i bawb sydd wedi helpu a chefnogi dros y blynyddoedd.

Cafodd y tîm brofiad go arbennig yn ddiweddar trwy fod yn fasnogs i dîm Dinas Bangor yn eu gêm yn erbyn y Rhyl. Gan fod un o'r chwaraewyr yn cael ei ben-blwydd, Liam, gofynnodd Bangor yn garedig iawn a fyddai gweddill y tîm yn hoffi'r cyfle i gerdded allan ar gae Nantporth efo tîm Bangor, ac yn well na hynny, yn gwisgo dillad tîm Deiniolen, lwcus mai glas oedd y crysau yr un peth â Bangor!

Mae'r tîm dan 9 yn ymddangos yn gryf ac yn sicr mae dyfodol i'r criw yma am y blynyddoedd i ddod. Diolch mawr i'w hyfforddwyr: Tony, Kyle a Luke am eu gwaith caled trwy'r tymor ac i'r teuluoedd a ffrindiau am eu cefnogaeth i'r ddau dîm trwy'r tymor.

Gwyl Deiniolen a'r Cylch 2014

Dyma restr o ddigwyddiadau eleni:

Nos Wener Mehefin 13

Clwb Cymdeithasol Llanberis - Bandana a Dilwyn Morgan - 8.00

Dydd Sadwrn Mehefin 14

Cae Bwthyn - Pêl-droed 5 bob ochr - 11.00

Nos Sul Mehefin 15

Eglwys Crist Llandinorwig - Cyngerdd coroni'r frenhines Alis gyda Erin Wyn, Osian Trefor, Catrin Llewelyn, Lleisiau Llanbabs, Côr Dre a Pharti canu Cadwyn - 6.30

Cwis yn y Bull - 9.00

Nos Lun Mehefin 16

T? Elidir - Helfa Drysor neu cwis i'r plant os bydd yn bwrw - 6.00

Nos Fawrth Mehefin 17

Ysgol Feithrin - Disgo i'r plant ieuengaf - 6.00

Cystadleuaeth Pwl - Wellington - 7.00

Pnawn Mercher Mehefin 18

Ty Elidir - Te pnawn yng nghwmni Mari Gwilym - 1.00

Ras 10k oddi amgylch yr ardal - 6.00

Nos Iau Mehefin 19

Cae Bwthyn - Mabolgampau - 6.00

Nos Wener Mehefin 20

Clwb Snwcer - Cystadleuaeth snwcer - 5.30

Cystadleuaeth Dartiau - Bull - 9.00

Dydd Sadwrn Mehefin 21

Diwrnod y carnifal i gychwyn gyda gorymdaith o Rhydfadog am 1.00 tuag at Cae Bwthyn ble bydd nifer o weithgareddau, cystadlaethau a stondinau.



Cylch Meithrin

Ymwelodd Estyn â'r Cylch yn ystod mis Mawrth ac yr ydym yn hapus iawn i gyhoeddi ein bod wedi ein graddio fel Da ym mhob elfen. Yr oedd yr arolygwr yn hynod bositif am y gwaith da sydd yn digwydd yn y Cylch. Dyma rai o'r sylwadau a wnaethpwyd:

Mae perfformiad y lleoliad yn dda oherwydd bod: profiadau dysgu yn bodloni anghenion a diddordebau'r holl blant ac yn eu hannog i ddysgu'n effeithiol a gwneud cynnydd da; ymarferwyr yn disgwyl llawer gan blant ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt fod yn weithredol yn eu dysgu; ansawdd y gofal, y cymorth a'r arweiniad a ddarperir i bob plentyn, yn gyson dda; ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt. Mae'r adroddiad gyflawn i'w gweld ar wefan ESTYN. Hoffai'r Pwyllgor gymryd y cyfle i ddiolch yn fawr i'r holl staff am eu gwaith caled.

Bu plant y Cylch wrthi'n frwdfrydig yn dylunio hetiau bonet Pasg yn ystod tymor y Gwanwyn. Eu tasg oedd ceisio cael noddwyr ac wedyn gofalu am yr hetiau dros eu gwyliau Pasg. Cafwyd straeon lu am eu hanturiaethau gyda'r hetiau a chasglwyd £150.90. Da iawn chi blant a diolch i'r holl noddwyr!

Cafwyd noson hynod lwyddiannus yn y Wellington yn Neiniolen ar nos Sadwrn y 10fed o Fai ble y cynhaliwyd noson gwis y Cylch Meithrin. Diolch i bawb a gyfrannodd tuag at y noson ac i bawb a fynychodd. Gwnaethpwyd £352.50 ar y noson. Bydd y cyfanswm yma yn mynd tuag at gyfanswm y noson cwis i brynu cyfrifiadur i blant y Cylch.

Cafodd blant y Cylch ymweliad gan Carys Ofalus dros yr wythnosau diwethaf yma. Mwynhaodd y plant yn arw wrth i Carys, cath fawr, ddysgu iddynt sut i fod yn ofalus ar y ffordd.

Grwp Dyfodol Deiniolen
Ffurfiwyd y grwp ym Mai 2013 a'i brif amcan yw ceisio sefydlu Canolfan Gymdeithasol aml bwrpas yn y pentref.

Teimlwyd fod angen Canolfan o'r fath ac mae criw gweithgar a brwdfrydig iawn wedi cyfarfod yn rheolaidd i geisio gwireddu hyn. Nid yw'r broses yn un hawdd ond trwy ddilyn pob canllaw yn ofalus a thrwyadl a throi pob carreg rydym eisoes wedi cyflawni llawer ar y daith. Y dasg fawr gyntaf oedd cael Adroddiad Dichonadwy sef, yn ôl y gofynion angenrheidiol, edrych ar dri safle o fewn y pentref. Gyda chymorth ariannol penodwyd y pensaer Owain Davies o gwmni pensaernïol Russell Hughes i wneud y gwaith a thri mis yn ôl ymddangosodd ei adroddiad ddiddorol a chynhwysfawr. Rhoes hyn hwb mawr inni ar ôl misoedd o waith.

Safle Capel Ebeneser gyda'i Festri a'i thiriogaeth oedd y lleoliad ffafriol. Ar hyd y daith cawsom gyd-weithrediad parod a charedig y Parch John Pritchard a'r aelodau. Ar hyn o ybryd mae'r Capel yn mynd i drafodaethau gydag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a hyderwn y daw llwyddiant o hyn.

Bydd gennym fel Grwp stondin yng Ngwyl Deiniolen (21 Mehefin) ac yno ceir gwybodaeth

lawn am ein cynlluniau gyda chymorth sgrin daflunio. Yn ogystal bydd holiadur i'w rannu a bydd y Pensaer yno i ateb unrhyw gwestiwn. Cyfle fydd hyn oll i rannu â chwi fel pentrefwyr ein sefyllfa ddiweddaraf. Breuddwyd yw'r Ganolfan ar hyn o bryd ac nid ydym am godi gobeithion yn ormodol ond byddai gwireddu ein gobeithion o fudd mawr i Ddeiniolen a'r ardal. Dewch at ein stondin yng Ngwyl Deiniolen eleni.

Ar ran y Grwp,

Idris Thomas, Glanrafon (Cadeirydd)

Cydymdeimlir yn ddwys â theulu, ffrindiau a chymdogion y ddiweddar Olive Allen, Tai Caradog, a fu farw wedi salwch byr.

Estynnir hefyd ein cofion at deulu'r diweddar Llew Jones, Caernarfon, neu Llew Garregwen fel yr adnabyddid yn Neiniolen.

Cymanfa Ysgolion Sul yr Annibynwyr Cynhaliwyd y gwasanaeth dechreuol gan aelodau ysgol Sul Deiniolen ac yna'r te bach i ddilyn. Cafwyd cyflwyniad hynod o ddifyr gan y plant, a diolch iddynt am eu holl waith caled. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd mor hael at y te bach, cafwyd gwledd o gacennau a melysion.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Y Gymdeithas Undebol Daeth tymor y Gymdeithas Undebol i ben ar nos Lun, Ebrill 28, gyda chinio ardderchog yng Nghlwb Golff Caernarfon. Diolch i Enid a'r merched am luniaeth gwyhch unwaith eto.

Y gwesteion oedd Mr a Mrs Richard Lloyd Jones, Bethel. Cafwyd sgwrs ddifyr ganddo am y profiadau y mae wedi ei gael yn ei fywyd, mewn eisteddfodau a hefyd pan yn dysgu a thrafaelio.

Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Jones gan y Llywydd a rhoddwyd y diolchiadau gan Mr Brian Price.

Bydd cyfarfod yn cael ei drefnu yn ystod yr wythnosau nesaf er mwyn i bawb roi ei farn am y drefn ar gyfer y tymor nesaf.

Diolch i bawb am eu ffyddlondeb yn ystod y tymor a fu.

Eglwys Crist Mae'r gwaith o dorri gwair a thacluso Mynwent yr Eglwys wedi dechrau am eleni a mawr ein diolch i Mr Berwyn Jones am ymgymryd â'r gwaith. Hyd yma eleni

rydym wedi derbyn rhoddion gan: Mrs M.C. Jones, Tan y Caerau: £10; Canon ac Ann Thomas, Glanrafon: £20; Osian a Llio Thomas: £20; Mrs Dianne Price, Tros y Waen, Pentir: £30; Mrs Gracie Tate 1 Bro Deiniol: £10; Mrs Kathleen Davies, 9 Hafod Oleu: £10; Mrs Nannie Evans, 26 Bryntirion, Penisarwaun: £5; Mrs Betty Pritchard: £5; Bingo Elidir: £50.

Byddwn yn dra diolchgar am roddion i gynnal y Fynwent, gan nad ydym yn derbyn unrhyw gymorth ariannol. Bydd Mr Brian Price, 14 Hafod Oleu, neu Mrs Gwen Griffith, Fron, yn dra diolchgar o dderbyn eich rhodd, neu unrhyw aelod o Eglwys Crist.

Mrs Olive Allen Dymuna Glyn Allen, 16 Caradog Place, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymorth a dderbyniwyd yn ei brofedigaeth o a'r teulu pan fu iddo golli ei briod annwyl, Olive. Diolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau lu am bob cefnogaeth.

Diolch arbennig iawn i'r holl staff caredig ar Ward Alaw Ysbyty Gwynedd a diolch i bawb am y rhoddion hael er cof am Olive tuag at y Ward. Diolch i'r Parchedig Ddr Carol Roberts am ei gwasanaeth cofiadwy ddydd yr angladd ac i Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis, am eu trefniadau trylwyr ac urddasol.

TM JONES
SEFYDLWYD DROS
20 MLYNEDD

SYMUD A CHADW
CLIRIO TAI A GAREJ (Unrhyw Bellter)
CLIRIO AR OL PROFEDIGAETH
Yswiriant Llawn Domestig a Masnachol
01248 430126 • 07786176866
thomasmeredydd@btinternet.com

BARRYS GLASS
FFENESTRI • DRYSAU
Conservatori UPVC
Trwsio Unedau
DOUBLE GLAZING
Trwsio a Gosod Gwydr
(01286) 872772
Symudol- 07840 794269



Dymuna Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, cymdogion, frindiau a chyd-aelodau Sefydliad y Merched, am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr iawn.

Sefydliad Prydeinig y Galon [S.P.Y.G.] Rhwng y 16 i'r 27 o Mehefin eleni bydd casgliad blynyddol o ddrws i ddrws S.P.Y.G. yn cael ei gynnal. Mae Cangen Caernarfon a'r Cylch o S.P.Y.G. yn gwahodd unrhyw un a fyddai'n barod i gasglu ym Mrynrefail neu Llanberis

i gysylltu â'r trefnydd Linda Jones [01286]673838. Mae S.P.Y.G. yn hyrwyddo ymchwil i achos a thriniaeth o glefyd y galon. Llauer o ddiolch, Tudor Ellis [Cadeirydd Cangen Caernarfon a'r Cylch o S.P.Y.G.].

Sefydliad y Merched Ddiwedd Ebrill bu'r noson Bowllo Deg gyda Grwp Eryri yn Llandudno yn un llwyddiannus gyda Sheila Williams yn ennill y Tlws fel y chwaraewr gorau. Cafwyd pryd o fwyd i ddiweddu'r noson yng Ngwesty'r Links. Ddiwedd y mis hefyd cafodd aelodau'r gangen gyfle i longyfarch un o'i haelodau sef Jenny Hughes, Bryn Parc, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed gyda theisen arbennig.

Wedi hen ymarfer yn ddygn daeth tîm dartiau y gangen yn ail yng nghystadleuaeth y rownd derfynol ym Mhwillheli.

Yng nghyfarfod mis Mai cafwyd adroddiad gan y llywydd, Pat Jones, ar yr Argymhellion ar gyfer y Cyfarfod blynyddol a gynhelir eleni yn Leeds. Yr argymhelliad i'w drafod oedd "Cynyddu Rhodd Organau". Pleidleisiwyd o blaid a bydd Gwen Edwards yn pleidleisio ar ein rhan yn y cyfarfod.

Croesawyd Emma Edwards-Jones fel gwraig wadd y noson ar ran Eryri Bywiol. Adroddwyd ganddi am waith y Gymdeithas yn gwarchod yr amgylchedd yn lleol – Llyn Padarn a diwydiant yn ardal Eryri.

Oedfaon Mehefin

1 am 5.30	Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
8 am 5.30	Parch R.E. Hughes, Nefyn
15 am 5.30	Trefniant lleol
22 am 5.30	Parch Marcus Robinson (Gweinidog)
	Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
29 am 2.00	Parch Trefor Lewis, Hen Golwyn

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Genedigaeth Llongyfarchiadau i David a Lynne Elias, Ffrwd Goch, ar enedigaeth mab, Nedw Dafydd, ar Fai 4ydd, brawd bach sy'n cael croeso mawr gan Siôn Dafydd a Megan Dafydd.

Yr Eglwys Bresbyteriaidd


Y Gymdeithas Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas nos Iau, Mai 1af. Y cadeirydd oedd Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Wedi gair o groeso a defosiwn perthnasol i thema'r noson sef, "Trysorau" croesawodd y siaradwr gwadd, y Parch Geraint Roberts, Porthaethwy. Cafwyd ganddo sgwrs arbennig o diddorol a bywiog tra'n arddangos llawer o drysorau personol a dderbyniodd dros y blynyddoedd ac adrodd am ei brofiadau yn ystod ei alwedigaethau cynnar ac yna fel Gweinidog ym Mhenygroes, Manceinion ac ardal Uwchaled. Diolchwyd yn gynnes iddo gan y cadeirydd a chafwyd cyfle ar y diwedd i sgwrsio ymhellach am ei yrfa nodedig. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mehefin 1af. Y siaradwr gwadd fydd Gareth Roberts, a'r cadeirydd fydd Dafydd Ellis, Gwledfa.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy



J. M. JONES

a'i FEIBION

LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffôn Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Gwasanaethau y Capel

Mehefin 1af am 2o'r gloch.
Y Parch Marcus Robinson a
gweinyddir y Cymun.

Mehefin 13eg am 10.00 o'r
gloch. Parch Trefor Jones.

Clwb Merched Cynhelir
cyfarfod olaf y tymor ar Fehefin
19eg. (Yn wahanol i'r dyddiad
ar y rhaglen) am 8 o'r gloch yn
y Ganolfan pryd y byddwn yn
trefnu rhaglen 2014-2015 a
gofynnir i bawb ddod â phlatiad
bychan o fwyd bys a bawd,
sawrus neu felys, i'w mwynhau
gyda phaned. Gwerthfawrogi
eich presenoldeb ac unrhyw
gynigion ar gyfer y tymor
nesaf.

Dymuniadau gorau i Mr
Arwel Hughes, Perthi, sydd
wedi cael llawdriniaeth yn
ddiweddar. Brysiwch wella.

Helfa Pasg Yn ôl yr arfer,
cafwyd Helfa Wy Pasg
lwyddiannus eto eleni ar fore
Sul y Pasg. Daeth nifer fawr o
blant y pentref ynghyd a chael
hwyl wrth chwilita am wyau
o gwmpas gerddi Plas Glan
Gwna; gyda'u teuluoedd yn
mwynhau cyfle i gymdeithasu.


Diolch o galon i deulu Glan
Gwna am eu parodrwydd
i groesawu'r achlysur, ac i
Bwyllgor a Chyfeillion y
Gymdeithas Cae Chwarae am
gyflenwi yr holl wyau siocled ac
am wneud yr holl drefniadau.

Brodwaith Diddorol oedd
gweld brodwaith a wnaed yng
Nghaeathro mewn arddangosfa
ym Mhlas Glyn Y Weddw,
Llanbedrog, yn ystod mis Mai,
o waith y diweddar chwiorydd
Amy a Mary Preece, Cefn Rhos
gynt. Roeddynt yn ferched i
Syr William Preece, Penrhos
gynt, ac arferai'r ddwy roi
gwersi brodwaith yn y pentref.

**Swydd arweinydd Cylch
Ti a Fi, Llanrug** Mae Cylch
Meithrin Llanrug yn chwilio
am arweinydd newydd ar gyfer
Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson
ymroddgar, brwdfrydig a
chyfeillgar i arwain y sesiynau
Brynhawn Mawrth (13:00-
15:00) a Bore Gwener (09:00-
11:00).

Am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Nichola yn y Cylch
- 01286 674020. Dyddiad Cau:
20fed o Fehefin



Priodas Hapus Dymuniadau gorau i Rhys Wyn Morgan, gynt
o Arwelfa, ar ei briodas yn ddiweddar ag Angharad Mair Davies o
Bencaenewydd. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Llwyn, Bethesda
Bach.

Arholiadau Mae yn anodd credu fod tymor yr arholiadau hefo
ni unwaith eto gan fod y gwynt yn dal yn andros o oer ac yn
gwneud inni feddwl nad yw tymor y gaeaf wedi'n gadael. Ond
er yr oerni mae y gog yn canu. Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi
mynd fel y gwynt. Carem fel ardal ddymuno yn dda i bawb sydd
yn eistedd yr arholiadau a gobeithio am ganlyniadau da i chi i gyd
ac y byddwch yn gallu mynd ymlaen â'ch addysg fel ag yr oeddych
wedi edrych ymlaen i wneud. Dymuniadau gorau a phob lwc i chi
i gyd.

Cofion Anfonwn ein cofion at Mrs Alice Griffith sydd yn cartrefu
yn Bryn Llifton ym Mangor ar hyn o bryd, gan gobeithio eich bod
yn teimlo yn well erbyn hyn.

**Swydd arweinydd Cylch
Ti a Fi, Llanrug** Mae Cylch
Meithrin Llanrug yn chwilio
am arweinydd newydd ar
gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis
Medi. Rydym yn chwilio am
berson ymroddgar, brwdfrydig
a chyfeillgar i arwain y sesiynau
Brynhawn Mawrth (13:00-
15:00) a Bore Gwener (09:00-
11:00).

Am ragor o wybodaeth
cysylltwch â Nichola yn
y Cylch - 01286 674020.
Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

C y d y m d e i m l a d .
Cydyndeimlwn yn ddiffuant
iawn gyda Miss Jennie Jones,
Tir Glas, a Mrs E.Storey,
maent wedi colli eu chwaer
annwyl, sef Miss Gwen Jones
oedd yng Nghartref Cerrig yr
Afon. Bu Miss Gwen Jones
yn ysgrifenyddes yn Ysgol
Brynrefail ac yna yn cydweithio
gyda Miss Beryl Thomas yn
Swyddfa'r Post Llanrug. Ein
cofion anwylaf atoch yn eich
profedigaeth.



Cefnogwch ein hysbysebwr

Trwsio ac Adnewyddu Dodrefn


Wedi torri darn o ddodrefn?

Hoff gelfi wedi mynd i edrych yn drist?

Cysylltwch â ni i roi bywyd newydd i'ch trysor

Dennis & Julie Jones

01286 650255



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922

Gwasanaeth FFRAMIO LLUNIAU

DEWIS EANG O LLUNIAU YN YR ORIEL AC AR Y WEFAN
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mw

Ysgol Gynradd

Cyn y gwyliu, cawsom wasanaeth y Pasg gan Ddosbarth Marchlyn oedd yn sôn am stori'r Iesu yn cael ei groeshoelio. Cawsom gystadleuaeth y Pasg hefyd. Roeddem wedi addurno het, addurno wyau a cherdyn. Fel gwobr cawsom wyau Pasg hyfryd!

Daeth perfformwyr o'r Llyfrgell atom i ddarllen llyfrau doniol iawn. Rydym yn ffodus iawn mae'r ysgol wedi prynu'r llyfrau ac mae'r dosbarth wrthi yn darllen y llyfrau gwyb yma, diolch yn fawr.

Mae ein ffrindiau o'r eglwys yn dod i 'Agor y llyfr' atom yn rheolaidd hefyd i ddweud storïau diddorol iawn o'r Beibl.

Mae dosbarth Marchlyn wedi gwneud gwaith i goffau Nelson Mandela. Cawsom gyfle i gyfrannu tuag at waith oedd yn cael ei arddangos yng nghyntedd Siambr Dafydd Orwig yn y Cyngor. Roeddem wedi mwynhau'r gwaith yma yn fawr iawn.

Mae rhai aelodau o'r ysgol wedi cymryd rhan yn ras traws gwlad yn y Faenol. rydym eisïau dweud llongyfarchiadau wrth May, Megan, Seren, Enid ac Anya am redeg mor dda.

Rydym wedi bod yn llwyddiannus yng nghystadleuaeth yr Urdd 'Y Gerdd Fawr'. Fe ysgrifennodd rhai o ddosbarth Marchlyn gerdd am ein pentref ni. Fe benderfynodd Aneirin Karadog, Bardd Plant eleni, bod ein cerdd ni yn un o'r rhai llwyddiannus ac felly mi fydd y gerdd yn cael ei chynnwys yn y 'Gerdd Fawr' a'i darllen yn Eisteddfod yr Urdd eleni yn y Bala. Dyma ein darn ni:

Wrth droed mynyddoedd Eryri,

Mae llawer yn mynd am dro,

Ymweld â hen chwareli,

Sy'n hanes i Gwm y Glo

Tan y mis nesaf,

Diolch, Rob, Keith, Riannon, Kaitlyn ac Aaron, Blwyddyn 6.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Undeb y Mamau Cyfarfu'r aelodau yn festri Eglwys Sant Mair Caernarfon bnawn Mawrth 20 Mai. Croesawyd pawb i'r cyfarfod a chafwyd gwasanaeth oedd yng ngofal Auriel Howel. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth rhai o'r aelodau. Darllenwyd cofnodion o'r cyfarfodydd a gafwyd ym mis Mawrth ac Ebrill a phasiwyd eu bod yn gywir. Trafodwyd materion oedd yn codi o'r cyfarfodydd. Croesawyd Iris yn ôl wedi gwaeledd a chydymdeimlwyd gyda Enid ar ôl colli ei gwr yn ddiweddar.

Bydd gwasanaeth a chymun yn cael ei drefnu yn Eglwys Llanfaelog Ynys Môn ar 30 Gorffennaf i aelodau'r ddeoniaeth. Bydd bws yn cael ei drefnu, yn gadael Machynlleth ac yn codi aelodau ar y ffordd. Amser i'w drefnu.

Yn gofalu am y lluniaeth oedd Auriel, hefyd rhoddwyd y raffl ganddi ac fe'i henillwyd gan Marjorie. Cafwyd amser i brynu oddi ar y bwrdd gwerthu. I orffen ein cyfarfodydd am y tymor trefnwyd cinio yn yr Harbwr, Mawrth 17, am un o'r gloch. Croeso i unrhyw un ymuno. Gorffennwyd y cyfarfod trwy adrodd y Gras yn Gymraeg a Saesneg.

"Fel Wyn i'r Lladdfa" (1914 – 1918)

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn y gyfres arloesol "Ein Gwir Hanes" ar Fehefin 14eg 2014 yng Nghanolfan Hanes Uwchgwyrfai, Clynnog Fawr. Cymru yn y Rhyfel Mawr yw ein testun y tro hwn, ond bydd yr arlwy yn wahanol iawn i'r heip jingoistaidd a hyrwyddir yn ddi-baid gan y cyfryngau Prydeinllyd.

O dan lywyddiaeth yr archifydd John Dilwyn Williams bydd tri siaradwr profiadol yn cyflwyno ffrwyth eu hymchwil ar agweddau arbennig o'r Rhyfel Byd Cyntaf, a hynny o safbwynt Cymreig.

"Byddin pa Frenin?" yw teitl awgrymog sgwrs Pryderi Llwyd Jones ar fater heddychiaeth a chrefydd rhai o Gymry'r cyfnod. Bydd Harri Parri yn traddodi ar "Gn Glân a Beibil Budr", mewn perthynas â John Williams, Brynsiencyn. Bydd Geraint Jones yn gofyn "A ddylai'r Eisteddfod roi sylw penodol i ddigwyddiadau trist Penbedw 1917?" – cwestiwn pigog ac amserol iawn.

Ceir cyfle i holi a thrafod ar ôl pob cyflwyniad.

Os am olwg ffres a Chymreig ar y Rhyfel Mawr, dewch draw i Glynnog i glywed ein gwir hanes. Bydd y sesiwn gyntaf yn dechrau am 10.30, gyda the a choffi ar gael amser cinio (ond dewch â'ch bwyd eich hun). Bydd y diwrnod yn dod i ben erbyn 2.30. Ni chodir tâl mynediad.

Gobeithio'n wir y byddwch yn gallu ymuno â ni.

Jina Gwyrfaï ar ran y Pwyllgor

MODURDY'R WYDDFA
Snowdon Garage
LLANBERIS

M.O.T
GWASANAETH
CYNNAL A CHADW

(01286) 870225



Meithrin Menter Gymdeithasol Leol

Am gymorth:

i sefydlu menter
i gynnal gweithdai
i geisio am arian
i redeg mudiad
i wirfoddoli

**cysylltwch â
Mantell Gwynedd**



- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575
Elusen Gofrestredig 1068851 Cofrestrwyd yng Nghymru
Cwmni Cyfyngedig drwy Warant 3420271

Dymuna Iola, Arwel, Aled a Gerallt, 22 Y Ddol, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad, tad yng nghyfraith a thaid arbennig iawn, Griffith Gwilym, Angorfa Saron. Diolch am y rhoddion hael er cof am Griff a dderbyniwyd tuag at Feddygfa Bron Seiont, a Hosbis yn y Cartref.

Dyweddiad Pleser yw cael cyhoeddi dyweddiad Gavin a Nikki (Post Bethel) yn ddiweddar a hynny dros y môr ymhell yn Efrog Newydd. Llongyfarchiadau calonnog oddi wrth y ddau deulu a'u ffrindiau.

Eisteddfod Bethel Mae trefniadau ar gyfer Eisteddfod Bethel 2014ar y gweill gyda Hydref 18fed wedi ei glustnodi fel diwrnod yr Eisteddfod. Bydd y Noson Ddawns yn cael ei chynnal nos Fawrth Hydref 14eg a'r Celf a Chrefft i'w gyflwyno Hydref 15fed.

Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur:

Cyfarfod dewis testunau cystadlaethau cerdd a llefaru - nos Fercher, Mehefin 4ydd, yn Festri Capel Cysegr am 7pm

Noson gofrestru ar gyfer partion cynradd ac uwchradd ynghyd a phaned a sgwrs - Gorffennaf 15fed am 6:30pm yn Festri Capel

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau:

20fed o Fehefin

Merched y Wawr, Bethel Croesawyd nifer dda o'r aelodau gan Jen y Llywydd i'r cyfarfod nos Fercher, Mai 14eg, yn Festri Cysegr. Llongyfarchwyd Mair Williams ar ddod yn nain unwaith eto. Ganwyd mab, Elis Owain i Owain ac Alison yn Abertawe. Yn dilyn cael linc o wefan Merched y Wawr i'n gwefan ni cawsom neges gan Tegwen, Y Cyfarwyddwr Cenedlaethol, yn ein llongyfarch ar ein gwefan "mae'n werth ei gweld" meddai. Dywedodd Gill Griffiths, y Llywydd Cenedlaethol "Llongyfarchiadau i chi ar eich gwefan. Diddorol iawn - a mwy i ddod. Ardderchog. Da iawn chi."

Tynnwyd sylw fod llun Mair Price yn y rhifyn cyfredol o'r 'Wawr' wedi iddi ysgrifennu erthygl ar Antur Waunfawr.

Llongyfarchwyd Angharad Price ar gyrraedd rhestr fer Llyfr y Flwyddyn efo'i llyfr 'Ffarwel i Freiburg' yn yr adran Ffeithiol Greadigol.

Dymunwyd y gorau a gwellhad llwyr i Catrin, merch Mary, yn dilyn ei thriniaeth yn ddiweddar.

Dymunwyd yn dda i Brian, gwr Eirlys, sydd wedi torri ei fraich pan ar wyliau. Dymunwyd yn dda i John, gwr Liz, sydd wedi bod 'nôl yn yr Ysbyty.

Croesawyd Alys yn ôl atom wedi iddi fod ddim yn dda yn ystod yr wythnosau diwethaf.

Cyhoeddwyd fod y cyfarfod blynyddol ar Sadwrn, 17 Mai, ym Machynlleth.

Aeth 250 o aelodau'r mudiad gan gynnwys 5 o'r gangen i wyl y Pum Rhanbarth ddydd Sadwrn y 7fed Mai ym Mangor. Cafwyd amrywiaeth yn diddanu yn ystod y dydd. Gethin a Gwilym oedd yn agor y diwrnod, ac roeddynt

yn llwyddiant ysgubol a phawb yn rhyfeddu at eu doniau cerddorol.

Bu Bet, Gwyneth Jones, Gwyneth Williams ac Anne am benwythnos a drefnwyd gan Rhiannon Parry o gangen Penygroes. Galwyd yn yr Amgueddfa Wlân yn Felindre ar y ffordd i aros am ddwy noson yng Ngwesty'r Marriott yn Abertawe. Wedi bore o siopa aethant i'r Mwmbles, gan socian at eu crwyn. Mwynhawyd cinio Sul yn Fferm Cwm Cerrig ar y ffordd adref.

Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cychwyn i Amgueddfa Telford am 5.30 fel bod digon o amser i fynd allan i ymweld â'r bont a chael pryd wedyn yn Carreg Bran.

Cafwyd adroddiad o'r Pwyllgor Rhanbarth, ac erbyn hyn cafwyd mwy o fanylion am y daith gerdded sy'n cael ei chynnal ar 28 Mehefin gan gyfarfod ar lan môr Aberdesach am 1.00pm, cerdded am bont y Cwm ac yn ôl ar hyd glan y môr am Aberdesach - taith o rhyw ddwy awr.

Haf Roberts o Lansannan gafodd y swydd is Ysgrifennydd efo mwyafrif o bleidleisiau.

Ein gwraig wadd oedd Helen Holland o gwmni 'Môn ar Lwy'. Sefydlodd y busnes yn 2008 yn ogystal â bod yn athrawes rhan amser. Mynychodd gyrsiau cychwyn busnes, cyrsiau hylendid bwyd a sut i wneud hufen iâ. Enillodd y cwmni nifer o wobrau am ansawdd yr hufen iâ. Yn 2012 enillwyd cynnyrch

gorau Môn. Dechreuwyd efo 4 blas - fanila, siocled, mefus a mint ond erbyn hyn mae nifer fawr o wahanol flasau ar gael. Cawsom y pleser o flasau 5 blas, mefus, siocled, llys, menyn cnau a blas bara brith. O weld sut bu i'r aelodau fwyta'r hufen iâ does dim syndod fod 'Môn ar Lwy' yn mynd o nerth i nerth. Diolchodd Eirlys Williams i Helen am noson hynod o bleserus. Bydd wefan y cwmni yn cael ei lansio yn fuan. Mae'r cwmni wedi cael yr hawl i werthu hufen iâ yn Ninas Dinlle yn ystod yr haf ac mae'n awyddus i gyflogi pobl lleol yno. Mae croeso i unrhyw un sydd angen swydd dros yr haf i gysylltu â'r cwmni.

Yn dilyn pleidleisio ar ddechrau'r noson etholwyd pwyllgor ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Llywydd - Mair Price; Is Lywydd - Mair Read; Ysgrifennydd - Rita Williams; Is Ysgrifennydd - Anita Owen; Trysorydd - Mair Williams; Is drysorydd - Anwylid Jones.

Aelodau'r pwyllgor: Liz Watkin, Nora Parry, Mary Evans, Bet Owen, Eirlys Sharpe, a Sheila Roberts.

Diolchodd Jen iddynt i gyd am dderbyn y swyddi heb unrhyw drafferth. Diolchodd hefyd i Ellen am drefnu'r baned a chael Alys ac Eleri i helpu. Enillwyd y raffl gan Rita. Cofiwch os nad ydych wedi dod ac arian £20 a dewis bwyd, i ddod â nhw mor fuan â phosibl i Gwyneth, Jen neu Anne.

SWYDDFA POST BETHEL

Ffôn (01248) 670261

COFIWCH AM EIN GWASANAETH NEWID PRES TRAMOR YSWIRIANT, TALU BILIAU ETC.
Gwasanaethau Arferol Swyddfa'r Post
A HEFYD PAYPOINT, LOTERI, A PHEIRIANT TYNNU PRES (CASHBACK)

LLUN-SADWRN
5.30am-7.30pm
DYDD SUL
5.30am-3pm

Gwasanaeth Gwres a Plymio

Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones - 1 Cefn Cynrig • Bethel • LL55 1UW
Tel. (01248) 674927 Mobile- 07798 746718

SWIGOD A SEBON

Gwasanaeth Golchi a Smwddio Altro • Ailwnio

54 STRYD FAWR LLANBERIS (01286) 870088



Trysorau mewn simdde.

Pryd tybed y dechreuodd yr arfer o roi trysorau bach personol i'w cuddio mewn simneiau? Mae'r traddodiad o gynnwys eitemau personol yn gwmpeini i'r ymadawedig ar ei daith i'r byd nesaf yn dyddio'n ol ganrifoedd., a hynny mewn gwahanol rannau o'r byd – yr Eifftiaid yn un enghraifft. Ond pam rhoi trysorau (eitemau digon dibwys i bawb arall mae'n siwr) mewn simdde? Ac ydi'r traddodiad wedi ei gyfyngu i Gymru? Yn ddiweddar bum mewn hen dy canol-oesol yn Ledbury, swydd Henffordd, ac yr oedd esgid ledr fechan wedi ei darganfod yn un o'i furiau, ond dim byd yn y simdde. Rhoddwyd sylw achlysurol i ddarganfyddiadau ym mro'r 'Eco' eisoes yn y golofn hon, a'r mis hwn, pentref Brynrefail sy'n hawlio'r simdde a'i thrysorau, a'r rheini yn weddol ddiweddar. Grat haearn bwrw hen ffasiwn oedd yn Heulfryn, ond penderfynodd y perchennog osod stof losgi coed yn ei lle, ac wrth wneud hynny y daeth ar draws tair eitem wahanol iawn i'w gilydd. Tocyn cyngerdd yng Nghapel Brynrefail oedd y cyntaf, a hwnnw i'w gynnal ar nos Iau, 21ain o Ebrill 1938. Roedd elw'r cyngerdd yn mynd i gynorthwyop Owen Hughes, Minafon, Brynrefail "yn ei hir waeledd". Enwogion y cylch oedd yn perfformio, gyda T.J.Roberts, Llanberis yn arwain, a'r Cynghorydd H.R.Philips, Caernarfon yn Gadeirydd. Chwecheiniog oedd pris mynediad. Dyma enghraifft felly o gyngerdd elusennol – pethau cyffredin iawn cyn dyfodiad y Wladwriaeth Les.



Yr ail eitem oedd blwch tun crwn yn cynnwys 'Ointment Anti-Gas No.2' – ond fod yr eli wedi hen droi'n bowdr sych o'i du mewn. Pam yn enw pob rheswm cadw'r fath beth?

Roedd y drydedd eitem yn odiach fyth: handlan porcelain. Ia, dim ond yr handlan, a dim son am gawg na jwg na chwpan yn sownd ynddi!

Ond mae'n amlwg fod y tair eitem o ryw bwys personol i bwy bynnag a'u gosododd yn y simdde. Oes unrhyw un o'r darllenwyr efo mwy o wybodaeth?



Moto Beiccynnar.

Gan Arnold Jones, Penisarwaun y cafwyd y llun, ac mae'n ddigon eglur i ddarllen y rhif cofrestru. Fe'i tynnwyd mae'n ymddangos ar ben yr allt o Bontrhythallt am Benisarwaun – ger Tan y Gaer neu Gwyddfor. Mae rhai cannoedd o gofnodion am rifau cofrestru ar gadw'n yr Archifdy yng Nghaernarfon, ac yr oedd cofnod am y peiriant hwn yn eu plith.

Cofrestrwyd y moto beic Triumph llwyd a du ar y 1 Chwefror 1921 i John Roberts, Fferm y Glasgoed. Parhaodd yn ei feddiant hyd 1930 pryd y trosglwyddwyd ef i Griffith John Evans, Parc y Rhos, Llanrug. Adnewyddu trwydded y moto beic ym mis Gorffennaf 1931 yw'r cofnod swyddogol olaf amdano. Os nad oes rhywun yn gwybod mwy o'i hanes... ..

Arysgrif Lladin ym Methel.

Nid pethau prin yw arysgrifau Lladin ar gerrig beddi – ond nid rhywbeth cyffredin iawn chwaith. Dyna pam nad oes gen i ddim eglurhad am osod arysgrif Lladin ar fedd ym mynwent Capel Annibynwyr Bethel. Dyma'r hyn sydd wedi ei naddu ar y garreg goffa:

Hic Sepultus Griffithus Hughes, Cefn Uchaf. Coll; Hack; Londini; Studios. Qui iv die Semptembris, Ann Sal. MDCCCXXXVII.

Obit Aetatis, Suae XXVII.

Pwy oedd Griffith Hughes, Cefn Uchaf a pham gosod arysgrif Lladin ar ei fedd? Does gen i ddim digon o Ladin i gyfieithu'r cwbl, ac rwy'n amau cywirdeb ambell air p'run bynnag! Apel felly i ysgolheigion Lladin anfon cyfieithiad cywir.

Standard 3 Ysgol Ganol Llanrug.



Nid yn aml y ceir lluniau o blant oddi mewn i ddosbarthiadau ysgol. Fel arfer, lluniau 'swyddogol', a phawb yn sefyll yn stond mewn rhesi taclus yw'r unig gofnod o gyfnod y rhan fwyaf ohonom yn yr ysgol. Daeth y llun hwn gan John Glyn Hughes (gynt o Lanrug) yr holl ffordd o Lanidloes, ond mae'n amau fod hanner y llun ar goll! Oes rhywun o ddisgyblion y 1950'au cynnar yn Ysgol Llanrug efo'r llun cyflawn – neu hyd yn oed yr hanner arall? A beth am enwau pawb yn y llun, neu beth oedd yr achlysur?

Mwy o luniau nac o sgwennu y mis hwn, ond gobeithio y cawn rhywfaint o hanes pentref ar gyrion bro'r 'Eco' y mis nesaf, sef Rhiwlas. Yn y cyfamser, gallwch gysylltu ynglyn a'r uchod neu unrhyw agwedd arall o hanes y fro. Anfonwch i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffon 01286 673515)

TEITHIAU CERDDED MAWRTH 2014

GWENER 6 MEHEFIN 9.30yb
CWM Y GLO I CASTELL BRYN BRAS:
HANESION (2½ milltir)
CYCHWYN: CAFFI MENTER FACHWEN, CWM Y GLO
RHAU GELLYDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS. ANGEN
SGIDIE CERDDED.

IAU 12 MEHEFIN 2.00yp
CYLCHDAITH DINORWIG A CHOED DINORWIG
(1½ milltir)
CYCHWYN: ALLT DDU, DINORWIG
RHAU GELLYDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS. ANGEN
SGIDIE CERDDED.

IAU 19 MEHEFIN 2.00yp
TALYBONT A'R RHUFEINIAID (2½ milltir)
CYCHWYN: CAPEL BETHLEHEM, LÔN CAE GWIGIN,
TALYBONT
CYMHEDROL GYDA LLWYBR CYHOEDDUS. SGIDIE
CERDDED.

SUL 22 MEHEFIN 2.00yp
CWM BRWYNOG: Y PENTREF COLL
CYSYLLTWCH A GARETH AR 01286 872914 AR 16/17
FEHEFIN AM Y MANYLION

IAU 26 MEHEFIN 10.30yp
TAITH CADW'N HEINI (A PICNIC): HANESION (AC
AMBELL SGANDAL)
O GALLTYFOEL, DINORWIG, SARDIS A MARCHLYN
(4 milltir)
CYCHWYN: CAFFI EB's, DEINIOLEN
GELLYDD. DEWCH A PICNIC.



Cynnal a Chadw Gerddi ac Adeiladau

TORRI GWAIR/ GWRYCHOEDD/ COED
PLANNU • CHWYNNU • PEINTIO • GWAITH COED
PLASTRO • GOSOD CEGINAU *AMCANGYFRIF AM DDIM*

Sion Roberts ▶ **07759415753**
3 CARADOG PLACE • DEINIOLEN • LL55 3H5

BYSUS RHIWLAS

BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Triapiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol-
Ffoniwch (01248) 361044



D. P. OWENS RHIWLAS

Clwb Camera Caernarfon

Canlyniadau cystadleuaeth mis Mawrth - “Unlliw”

Beirniad: Andy Polokawsky.

(CU / C – Wedi derbyn canmoliaeth uchel / canmoliaeth)

Lluniau Digidol:

Grŵp Cyffredinol

1 Sheila Jones, Pontllyfni – Seed Head 2 Brenda Jones, Llanwnda – Adfeilion 3 Derek Norton, Saron - Chamonix Daybreak CU Sarah Roberts, Llanfaglan - Cambodia Courtyard CU Laura Seoane, Llanllyfni – Mirrors C Kai Daniel, Waunfawr - Cwt Bugail Moel Eilio C Pauline Jones, Caernarfon – Fireplace C Derek Norton, Saron - Lunchtime

Grŵp Canolradd

1 John Staten, Bangor - Sue, Outside Bryn Menai 2 Hefin Owen, Llanberis - Puffin With His Catch 3 John Staten, Bangor - Albania in Ruin CU Gwynant Pierce, Llanrug - Chestnut Pale CU Val Kressman, Cwm y Glo – Cosmos CU David Phillips, Penisarwaun - I Crazy Horses HC Peter Basterfield, Pentir - The Cleaner CU Peter Basterfield, Pentir - Llyn Llydaw C Gwyndaf Hughes, Llanrug - Coeden A Chamfa C Brinley Williams, Caernarfon - Here's Looking At You C David Phillips, Penisarwaun - I Cyw C Melanie Jones, Llanberis – Kalithea C Theresa Salmon Dilworth, Porthaethwy - Stonehenge Silhouette C Dewi Jones, Llanfairpwll - Trearddur Tymhestlog

Grŵp Uwch

1 Sian Davies, Bethel - The Entertainer 2 Arwel Roberts, Bethel - Mud Bath 3 Andy Teasdale, Dinorwig - Aber Falls CU Iwan Williams, Llanrug - Dinas Dinlle CU Dewi Parry, Rhostryfan - Neil Percival CU John Roberts, Groeslon - Not One But Two Comes Along CU Iwan Williams, Llanrug - Pier Bae Colwyn C Gareth Jones, Caernarfon - Chatsworth Picnic C Ken Latham, Waunfawr - Laying Down Roots C Sian Davies, Bethel - Living Accommodation C Iwan Roberts, Llanrug - Yr Ynys

Lluniau wedi eu printio:

Grŵp Canolig

1 Gwynant Pierce - Wild Waters 2 Brinley Williams - Castell Y Bere 3 Brian Williams – William CU Gwynant Pierce – Ifor CU Brian Williams - Room For Improvement C Peter Basterfield - Concern C Theresa Salmon Dilworth - Newborough Pony C David Brady - St Nicholas Church Liverpool

Grŵp Uwch

1 Geraint Thomas, Llidiardau – Emyr 2 Andy Teasdale, Dinorwig - On The Edge 3 Geraint Thomas, Llidiardau – Trev CU Ronnie Williams, Llanfairpwll - Baking Hot (Dead Flei) CU Iwan Williams, Llanrug - Bwthyn Nebo CU Iwan Roberts, Llanrug - Dros Dinorwig CU Sian Davies, Bethel - Killed By Asbestos

CU John Roberts, Groeslon - Maen Hir CU Andy Teasdale, Dinorwig - Oberland Oddesey C Arwel Roberts, Bethel - B&W C Arwel Roberts, Bethel - Bird Feeder

C Sian Davies, Bethel - Garden Seat C Ronnie Williams, Llanfairpwll - Glazier Bay Alaska C Arwel Roberts, Bethel - Got My Eye On You C Christine Langford, Abersoch - Le Sacre Coeur C Iwan Williams, Llanrug - Nant Gwrtheyrn C Don Langford, Abersoch - Off To Work Assissi C Ronnie Williams, Llanfairpwll - Old Boathouse Caernarfon C Iwan Williams, Llanrug - Pen Yr Ole Wen C John Roberts - Torn Curtain, Groeslon C John Roberts, Groeslon - Tree And Cloud C Arwel Roberts, Bethel - Hefin

Clwb Camera Caernarfon

Llun y Flwyddyn - fel y dewiswyd gan aelodau'r Clwb

Enillwyr y categorïau:

Grŵp Cyffredinol

Delwedd Print - Big Issue Seller gan David Brady (Dwyran)

Delwedd Ddigidol - The Calm Before The Storm gan Alwynne Jones (Bethel)

Grŵp Canolradd

Delwedd Print - Bore Ar Y Ddôl gan Gwyndaf Hughes (Llanrug)

Delwedd Ddigidol - Sunrise On Llyn Padarn gan Hefin Owen (Llanberis)

Grŵp Uwch

Delwedd Print - Topsy gan Geraint Thomas (Bala)

Delwedd Ddigidol - Llyn Nantlle gan Iwan Williams (Llanrug)

O'r chwe delwedd uwch, dewisodd yr aelodau “Llyn Nantlle” gan Iwan Williams (Llanrug) fel Llun Y Flwyddyn am 2013/14.

H. E. HUGHES
A'i Feibion

Bwthyn Gadlys Llanberis



GWERTHWR
GLO ac
OLEW GWRES
CANOLOG


(01286) 870444

Codi arian i Marie Curie.

Beicio can milltir mewn gwyntoedd o 50 milltir yr awr. Dyna oedd hanes Fiona Owen, Llanrug, a Hugh Morgan, Bethel, yn ystod y mis diwethaf. Roeddent yn cymryd rhan yn y CARTEN100, sef taith feicio o Gaerdydd i Ddinbych y Pysgod. Yn anffodus i'r ddau, roedd yr amgylchiadau o ran tywydd y rhai gwaethaf ers i'r digwyddiad gael ei gynnal gyntaf yn 2004. Ond cwblhawyd y daith a chodi arian i elusen Marie Curie yr un pryd. Gobaith y ddau yw cwblhau 'Trail Marathon' Cymru a Ras yr Wyddfa yn ystod y misoedd nesaf, a pharhau i godi arian tuag at elusen Marie Curie. Os oes unrhyw un yn dymuno eu noddi yn y ddau ddigwyddiad, yna mae croeso cysylltu a hwy ar dudalen 'justgiving' neu drwy'r dulliau arferol.



CYFROL CRIW'R BEDOL I BAWB!



Mae'r criw sy'n cyfarfod yn nhafarn Y Bedol, Bethel bob nos Fercher i ddysgu cynganeddu, wedi cyhoeddi ei ail gyfrol o farddoniaeth. Eleni, mae'r dosbarth yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed, a rhan o'r dathliadau hynny ydi'r gyfrol, dan y teitl 'Mae Eleni'n Ddeng Mlynedd...' sydd wedi ei golygu gan yr athrawes, Karen Owen. "Mi gyhoeddodd y dosbarth ei gyfrol gynta' bum mlynedd yn ol, yn 2009, pan oeddant ni'n nodi pum mlynedd o gynganeddu," meddai Karen. "Ond dw i'n falch iawn o weld y gyfrol hon yn dod o'r wasg. "Mi ddechreuon ni'r dosbarth yng Nghanolfan Cefnfaes,

Bethesda, yng nghefn gaea' 2009, ond yn fuan iawn mi symudon ni i Landdeiniolen - i dafarn y Gors Bach am dipyn, cyn ymgartrefu yn Y Bedol ers rhai blynnyddoedd bellach. "Mae'r llyfr yn gasgliad o gerddi dwys a doniol, cerddi personol a cherddi'n cofnodi digwyddiadau lleol a chenedlaethol. Dw i'n gobeithio y bydd pobol yn mwynhau'r darllen." Mae yna rai copiau ar gael mewn siopau yn Llanrug a Bethel, ond mae croeso i unrhyw un sydd am brynu copi am y pris rhesymol iawn o £4, gysylltu ag unrhyw aelod o'r dosbarth, neu ag Ysgrifennydd y grwp, Richard Llwyd Jones ar richard.llwyd@yahoo.co.uk neu 01248 670115.

Ysgol Penisarwaun

Gymuned

Tynnu lluniau – Daeth Gwynant Parri i'r Ysgol ar Fawrth 11eg i dynnu lluniau'r dosbarthiadau.

Gwasanaeth Tân - Galwodd Gwawr Williams yn yr ysgol ar Fawrth 12fed i roi cyflwyniad ar ddiogelwch tân yn y cartref i BL 3 i 6.

Gwasanaeth Boreol – Croesawyd Mr Andrew Settatee i'r Ysgol bore dydd Mawrth Ebrill 1af i gynnal y Gwasanaeth boreol.

Ymweliad – Treuliodd PC Meirion Williams fore dydd Mercher Ebrill 2ail yn sgwrsio gyda'r dosbarthiadau yn eu tro am beryglon defnyddio cyffuriau ac alcohol.

Cinio Groegaidd – Mwynhawyd cinio blasus gyda naws Groegaidd wedi ei baratoi gan Anti Carolyn ac Anti Mandy dydd Gwener Ebrill 11eg. Roedd y byrddau ar Neuadd wedi ei addurno gyda baneri gwlad Groeg.

Rhedeg Traws Gwlad - Llongyfarchiadau mawr i Abbi a Georgia Parkinson fu'n aelodau allweddol o dim rhedeg traws gwlad clwb Menai Track & Field a lwyddodd i ennill Cynghair Traws Gwlad Gogledd Cymru dan 11 yn ddiweddar. Hefyd, bu'r ddwy yn cystadlu gyda

thri o'u cyfoedion o'r ysgol yng Ng?yl Traws Gwlad y Faenol yn ddiweddar: Efa Baines, Mabli Baines a Cai Gayther. Rhedodd y pump ohonynt yn arbennig o dda ar y noson mewn rasy o safon uchel iawn. Da iawn chi!

Ymweliad Rhyd Ddu - Roedd pawb o BL 3 i 6 yn llawn bwrwm fore Llun Mai 19eg ac yn awyddus iawn i gychwyn am Ganolfan Rhyd Ddu i dreulio dau ddiwrnod yno. Bydd cyfle i gymryd rhan mewn amryw o weithgareddau diddorol. Gobeithir cael ychydig o'r hanes gan y plant yn y rhifyn nesaf o'r Eco.

Llongyfarchiadau – i Miss Rachel, Cymhorthydd y dosbarth Meithrin, ar enedigaeth merch fach, Llio Mai, a anwyd ar Fai Sed. Mae pawb yn edrych ymlaen i'w chyfarfod yn yr ysgol yn reit fuan gobeithio.

Cronfa'r Pensiynwyr - Enillydd y bêl bonws mis Mawrth oedd Mrs Janet Jones 12 Bryn Tirion, gyda rhif 29, a mis Ebrill Andy ac Annie T? Capel gyda rhif 12. Llongyfarchiadau.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau

Brynhawn Mawrth (13:00-15:00)a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Ysgol Sul Bosra Cynhaliwyd Cymanfa'r Annibynwyr, Cylch Deiniolen, Cwm y Glo, Penisarwaun a Llanberis bnawn Sul, Mai 11fed, yn Neuadd Gymuned Penisarwaun. Braf oedd gweld y Neuadd yn llawn a llongyferchir Ysgol Sul Ebeneser am eu rhan dechreuol clodwiw. Mawr ddiolch i Susan Williams, Llanrug, am ei dewis o ganeuon bywiog, llawn symudiadau, i'r plant. Bu ymateb y gynulleidfa yn arbennig o dda a braf oedd cael canu ambell emyn draddodiadol hefyd. Mae'r plant bob amser yn falch o gyfraniad Andrew Settatee a diolch iddo am ei gyflwyniad o ddameg y Canwriad. Gwnaed casgliad tuag at Gynllun Efe a chyhoeddwyd bod twrnamaint pêl-droed i'r Ysgolion Sul ar gae Ysgol Llanrug nos Wener, Mehefin 6ed. Diolchir hefyd i Mr Evie Jones a'i chwiorydd ac i Pat ac Arnold Jones am eu rhodd hwythau i'r Gymanfa. Paratowyd lluniaeth gwerth chweil i'r plant a'r oedolion gan aelodau Ysgol Sul Ebeneser Deiniolen a diolchir iddynt am y wledd. Braf iawn oedd cael cydaddoli a mwynhau cwmni'n

gilydd.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid bnawn Sul, Mehefin 22ain yng Nghapel Ebeneser Caernarfon am 2.00 y pnawn. Dewch i gefnogi.

Pwyllgor Neuadd Tynnwyd Clwb Cant Mai a'r enillwyr lwcus yw Beca Gwyn, Llanfairpwll a Mrs Brenda Davies, Tyddyn Hendre.

Dymunir diolch i bawb a gefnogodd 'Miri Mai' nos Fercher, Mai 21ain. Llongyferchir enillwyr y Rasy Rhedeg yn eu gwahanol oeddrannau.

Eisteddfod Bentref Cynhelir yr Eisteddfod nos Wener, Gorffennaf 11eg, yn y Neuadd Gymuned am 6.00. Y mae'r testunau wedi'u dosbarthu. Cynhelir ymarferion yn y Neuadd Gymuned nos Iau, Mehefin Sed rhwng 6 a 6.45 i'r oedran Cynradd, a 6.45-7.15 i'r Uwchradd, a hynny tan yr Eisteddfod.

Pen-blwydd Arbennig Llongyfarchiadau i Glen Lamb, Penrhyn, 7 Bryn Eglwys, ar ei ben-blwydd arbennig ar Fehefin 9fed. Cariad mawr gan Glenda, William, Caitlin, Mam a Dad, Darren a'r teulu a'r teulu oll. Mwynha y dathlu.






- Gwyliau cerbyd moethus Prydeinig a Chyfandirol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Adran teithiau grwp.
- Tocynnau rhodd.
- Llyfryn Gwyliau 2014 ar gael nawr.

01286-675175 | www.arvoniaco.uk

Caffi Caban

ar agor

9 y bore tan 4 y pnawn- 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni -cydweithredol Di-elw Yw Caban Cyf
Wedi Ei Sefydlu i
Hwyluso Datblygiad Economaidd Cefn Gwlad

Nod Caban Cyf, yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffi a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (UNEDAU BUSNES CABAN) ER MWYN CREU CYFLEOEDD GWAITH

Caffi Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Anrhydeddau'r Orsedd.



Mae dau o gymeriadau bro'r "Eco" wedi eu anrhydeddu gan yr Eisteddfod Genedlaethol, ac fe'i derbynnir yn aelodau o'r Orsedd yn Llanelli fis Awst.

Mae Haf Thomas o Lanrug yn adnabyddus fel un sy'n ddyfal yn casglu arian at wahanol achosion da ac elusennau, a chafwyd cryn dipyn o'i hanes yn yr "Eco" dros

y blynyddoedd.

Anrhydeddwyd Duncan Brown o'r Waunfawr am ei gyfraniad i fyd natur. Mae bellach wedi ymddeol, ond yn hynod brysur yn golygu'r cylchgrawn "Llên Natur".

Ein llongyfarchiadau i'r ddau ohonoch ar eich haeddiant.



**GWYNANT
PIERCE**

CYNYRCHION COED
GATIAU • FFENSUS
AM BRISIAU
CYSTADLEUOL

— Uned 1 —
**Fferm Bryn Afon
LLANRUG**

**(01286) 674183
07889899901**

**ECO'r
Wyddfa**

**Cefnogwch
ein
hysbysebwy**

Sgwarnaw.

Defnyddiwch y llythrennau (unwaith yn unig) i ffurfio geiriau pedair llythyren neu fwy. Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh a th. O ddefnyddio'r holl lythrennau gallwch ffurfio enw lle yng Nghymru. Rhaid defnyddio'r llythyren yn y sgwar canol ym mhob gair.

Y mis hwn:
5 gair = da;
10 gair = da iawn;
15 gair neu fwy – ardderchog.

Ateb y mis diwethaf: Garthgellin.

G	L	S
A	N	F
E	N	I



**PROBLEM GYDACH
CYFRIFIADUR?**

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys a
GWELLA EICH CYFRIFIADURON
CYSYLLTWCH A

GOMER ROBERTS

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur

(01286) 870462 Symudol-07962 712368



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau • Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
Pwyllgorau • Bwydlen Bar • Cinio Dydd Sul
• PRIODASAU •

Ffôn- 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk

The ROYAL VICTORIA HOTEL
Snowdonia




Dylunwyr y dyfodol.

Newyddion o adran Dylunio a Thechnoleg Ysgol Brynrefail.

Welwch chi ddim yr adran hon ar lwyfan eisteddfod na chwaith yn sgorio cais neu gol ar gaeau chwarae yr ysgol. Ond mae yr adran yn gosod sail cadarn er datblygu dylunwyr y dyfodol.

Y flwyddyn yma mae'r criw Blwyddyn 12 Dylunio Cynnyrch wedi cael sialens newydd gan Mr Paul Griffiths (Pennaeth yr adran Dechnoleg newydd). Mae dylunwyr yn cael eu hysbrydoli yn aml gan ystod eang o ffynonellau, felly gofynni'r iddyn nhw ddylunio nodwedd golau arloesol gan ddefnyddio symudiad dylunio neu



ddylunydd enwog fel y prif ddylanwad. Wrth wneud hyn mae'r disgyblion wedi cael eu hannog i feddwl a dylunio mewn ffordd greadigol ac arloesol, wedi cael ei wthio i geisio fod yn fwy arbrofol gyda defnyddiau a phrosesau gwneud. Gyda'r bwriad o geisio cael y disgyblion i weithio mewn ffyrdd gwahanol sydd tŷ allan i'r parth cysur.

O edrych ar y gwaith wedi cael ei gwblhau mae'r disgyblion yn flwyddyn 12 wedi cael llwyddiant tu hwnt. Mae'r disgyblion wedi mynd i'r afael ar dasg ac wedi gweithio mewn ffordd hynod o gydwybodol.



Caio Hywel— Nodwedd Golau 60au.



Mathew Jones —Nodwedd Golau 60au.



Daniel Jones a Daniel Burns—Nodwedd Golau 'Streamline' / Modern



Nia Griffiths — Nodwedd Golau Art Nouveau



Ashley Evans a Ryan Richards —Nodwedd Golau Yr Bauhaus



Jac Williams a Owain Griffiths—Nodwedd Golau Art Deco



Enillwyr y Clwb Cant

Mis Ionawr 2014: 1) Thomas Evans; 2) Bronwen Williams.

Mis Chwefror: 1) Ffion Jones; 2) Llio Jones.

Mis Mawrth: 1) Iona Thomas; 2) Sion Jones.

Mis Ebrill: 1) Owena Roberts; 2) Andrew Evans.

Ga i ddiolch i'r disgyblion ddaeth i helpu yn Morrisons dydd Sadwrn, 3ydd Mai, i bacio bagiau a chasglu arian i'r Cyfeillion - casglwyd £509.

Diolch

Nia Griffith, Trysorydd Cyfeillion YB



Dafydd Williams, Rhys James, Rhun Williams a Llywelyn Law —Nodwedd Golau De Stijl

Jack Harper—Nodwedd Golau

Yn ychwanegol i'r criw Blwyddyn 12 gweler yr un ymroddiad gan flwyddyn 13. Bu Aled Jones, Gethin Jones a Derfel Thomas yn weithgar tu hwnt yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd y tri yn gweithio tuag at yr un briff, ond wedi ei ddehongli mewn ffordd gyfan gwbl wahanol. Eu nod roedd i ddylunio a chynhyrchu cynnyrch newydd, arloesol ac amlybwrpas.

Ar ôl misoedd o waith dylunio a datblygol gan y tri gweler cynhyrchion o ansawdd uchel roedd yn ateb gofynion y briff a osodwyd yn llawn. Mae'r gwaith yn dangos creadigrwydd a dychymyg y disgyblion i geisio datrys problem realistig.



Mae gennym y bwrdd torri aml bwrpas gan Aled. Yr uned storio beic ac offer beicio gan Gethin. Ar gadair amlybwrpas gan Derfel sydd yn gallu cael ei haddasu i fod yn rhes o risiau er mwyn cael ci i bŵt y car.



Aled Jones— EZChop



Gethin Jones — CycleTech



Derfel Thomas— The Dog Aid

Fel y gwelir mai'r disgyblion yn yr adran dechnoleg Ysgol Brynrefail wedi cael amrywiaeth o brofiadau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Maent wedi cyfuno sgiliau ymarferol a thechnolegol gan feddwl yn greadigol i ddylunio a gwneud cynhyrchion sy'n diwallu anghenion dynol. Maent yn dysgu defnyddio technolegau cyfredol ac ystyried effaith datblygiadau technolegol yn y dyfodol. Maent yn dysgu i feddwl yn greadigol ac yn ymyrryd i wella ansawdd bywyd a datrys problemau fel unigolion.

Fel y dywedodd Mr Paul Griffiths "Rwyf yn llongyfarch y disgyblion am eu hymroddiad a gwaith caled yn ystod y flwyddyn. Rwyf wedi cael balchder o weld pob disgybl yn datblygu sgiliau dylunio a thechnegau ymarferol newydd. Mae hi wedi bod yn waith caled yn ystod ond wedi bod gwerth pob eiliad, ac rwyf yn edrych ymlaen at weld beth sydd gan y disgyblion i ddangos yn y dyfodol agos".

Gwobr Tiwtor y Flwyddyn i ferch o Lanrug.



Cynhaliwyd Noson Wobrwy Cymraeg i Oedolion Grwp Llandrillo Menai yn Y Galeri, Caernarfon, gyda Bethan Gwannas.

Rhannwyd y wobwr hon fesul coleg sef Coleg Meirion-Dwyfor, Coleg Menai a Choleg Llandrillo a derbyniodd y tiwtoriaid buddugol wobwr ariannol o £100 yr un. Cafodd 19 o diwtoriaid eu henwebu gan 55 o ddysgwyr a nododd y beirniaid pa mor braf oedd darllen y ganmoliaeth i'r holl diwtoriaid gan y dysgwyr.

Audra Roberts o Lanrug oedd enillydd Coleg Menai. Mae'n gobeithio cynnal dosbarthiadau yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug ddechrau Medi. Bydd mwy o wybodaeth yn cael ei gyhoeddi yn yr "Eco" cyn hynny.

Meddai un o'i disgyblion: "She is the best Welsh tutor we could have hoped to have."

ECO'r Wyddfa

O'r Cyngorau Cyngor Cymuned Llanrug

Mewn cyfarfod ar y 15fed o Ebrill 2014

- * Adroddwyd fod goleuadau coeden Nadolig Cwm y Glo wedi cyrraedd a bod Menter Fachwen wedi cytuno i'w cadw nhw o dan glo nes y bydd eu hangen.
 - * Roedd aelod o'r Cyngor wedi cyfarfod y blismones newydd a'i gweld yn archwilio'r pentref. Nodwyd ei bod yn braf gweld mwy o bresenoldeb yr Heddlu o gwmpas y gymuned.
 - * Atgoffwyd pawb o bwysigrwydd ffonio Cyngor Gwynedd i gwyno am broblemau baw ci er mwyn iddynt hwy weithredu.
 - * Dywedwyd fod y Cyngorydd Charles Jones wedi dilyn i fyny sawl twll yn y ffyrdd gyda Chyngor Gwynedd a'i fod yn disgwyl gael cyfarfod gyda swyddogion i drafod hyn ymhellach.
 - * Adroddwyd bod cyfarfod safle wedi bod ar gae Glanmoelyn a chafwyd crynodeb o'r hyn gafodd ei drafod a'i benderfynu. Trefnwyd i ddilyn y materion i fyny ac i gael gwybod pryd mae Celtic Souza yn bwriadu gweithredu.
 - * Cytunwyd i gysylltu gyda swyddogion yr Eglwys i ofyn pryd mae'r talebau rhyfel yn cael eu symud o Gwm y Glo i Lanrug.
 - * Dywedodd y clerc ei bod wedi gofyn i'r Cyngor Sir a ellir trefnu i'r Giang Cymunedol ddod i glirio'r llwybr ger Ogwen.
 - * Adroddwyd fod cwyn wedi'i dderbyn am lwybr Talybont. Dywedodd y clerc y byddai yn dilyn hyn i fyny gyda'r swyddog llwybrau.
 - * Cafwyd cadarnhad fod teclynnau casglu sbwriel wedi cael eu prynu.
 - * Penderfynwyd ymweld â swyddfa cwmni Ellis Davies i holi am weithredoedd maes parcio Sgwâr Llanrug.
 - * Adroddwyd fod rhywrai wedi mynd â cherbyd ar gae chwarae Cwm-y-glo ac wedi gwersylla yno. Trafodwyd sut y byddai modd atal hyn rhag digwydd eto. Cytunwyd i ofyn am bris gan Menter Fachwen i osod postyn yno.
 - * Dywedwyd fod cae Nant y Glyn i'w weld mewn cyflwr da ac yn cael ei barchu gan y defnyddwyr.
 - * Cytunwyd i ofyn i Giang Cymunedol y Cyngor Sir lanhau llwybrau ger Ogwen a Thalybont.
 - * Cytunwyd i ofyn i griw Ysgol Brynrefail lanhau o gwmpas hen Garej Hafod a'r ddau gae chwarae ac i geisio cael cyhoeddusrwydd am hyn yn y papurau lleol.
 - * Penderfynu holi a fyddai'r sied ar ddarn o dir i'r Dwyrain o Stad Ddiwydiannol Cibyn yn cael effaith ar y ffordd osgoi newydd. Datgan pryder os bydd mwy o draffig yn defnyddio'r ardal gan ei bod yn anodd a pheryglus dod i'r ffordd.
 - * Trafodwyd rhoi arian tuag at y gofeb yng Ngwlad Belg a phenderfynwyd i gyfrannu £200 tuag ati.
 - * Penderfynwyd gofyn i'r Heddlu archwilio'r gyrru ar hyd Tan y Coed.
 - * Cytunwyd i gais i gymryd rhan yn arolwg Bysiau Lleol Gwynedd 2014 drwy gasglu gwybodaeth gan ddefnyddwyr bysiau.
 - * Cafwyd manylion am grantiau Banc Lloyds a dywedodd y clerc y byddai yn ceisio gwneud cais ar ran y Cyngor.
 - * Penderfynwyd gofyn i Cyngor Gwynedd ynglyn â safle bws newydd ger Hermon, tu allan i stad Tal y Bont a Chwm y Glo.
 - * Roedd nifer o gwynion wedi'u derbyn am y garej newydd yng Nghwm y Glo gan fod ceir yn parcio ym mhob man o'i chwmpas a ger y fynedfa i'r ffordd osgoi. Penderfynwyd gofyn i'r Adran Gynllunio a Priffyrdd archwilio diogelwch y safle.
- Gwahoddir geisiadau am Glerc i'r Cyngor.
- Am fwy o fanylion cysylltwch a'r Cadeirydd Mrs Meirwen Lloyd ar 01286-675359 rhwng 5:00 a 9:00pm)

"FFONIWCH OS AM GAEL
MWY O 'FISITORS' DROS
YR HAF"

tel: 01341 247 200
ebost: gwion@dioni.co.uk

DIONI



COFNODION EBRILL 2014:

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Y Ganolfan, Llanberis, nos Fawrth y 15fed o Ebrill, 2014 am 7 yr hwyr.

PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU:

Ward Padarn: Emlyn Baylis, Barry Davies, Eurig Druce, Gwilym Evans, Olwen Gwilym, Iwan Harding, Bethan Holding (Cadeirydd), Derek Jones, Dafydd Roberts, Helen Sharp, Trystan Thomas.

Ward Peris: Iola Owen, Gwenda Roberts.

Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fawrth yr 11eg o Fawrth, 2014 fel rhai cywir, ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

MATERION YN CODI O'R COFNODION:

1. Defaid:

Cafwyd ar ddeall fod defaid yn dod i lawr y lein, awgrymwyd mynd ar ôl cwmni Rheilffordd yr Wyddfa i weld a ellir eu hatal.

2. Tirlunio Adwy Ffordd Haearn:

Adroddwyd bod llechi wedi eu prynu ar gyfer y gwaith. Cafwyd addewid am ychwaneg, os bydd angen, gan Dafydd Roberts.

3. Palmentydd:

Adroddwyd bod arwyddion hysbysebu'n dal i fod yn rhwystr ar y palmentydd.

4. Llifogydd – cynllun argyfwng:

Cafwyd braslun gan Barry Davies o gynllun argyfwng ar gyfer llifogydd yn y pentref. Eglurodd mai prin fyddai nifer gweithwyr y Cyngor Sir a fyddai ar gael yn y dyfodol, gan awgrymu y bydd rhaid gweithredu yn lleol. Fe hoffai weld y Cyngor yn cael safle yn y pentref i gadw tywod a bagiau, byddai angen cynhwysydd i ddal y tywod. Dywedodd y bydd angen edrych ar lle mae'r risg mwya yn y pentref, mae rhai mannau wedi eu nodi eisioes, ac mae rhai mannau yn gweld dŵr yn amlach nag eraill ac fe soniwyd yn fras am rai ohonyn nhw. Yn ôl Emlyn Baylis mae angen gwaith ar gylfert neu ddwy, dywedodd Barry Davies fod Cyngor Gwynedd wedi edrych ar rai lle cynnau yn barod. Addawodd Barry Davies gyflwyno adroddiad yn un o gyfarfodydd nesa'r Cyngor fel canllaw ar sut i weithredu cynllun argyfwng, a'r gost o'i sefydlu.

GOHEBIAETH:

1. Yr Ysgol Feithrin:

Cafwyd cais am gymorth ariannol oddi wrth yr Ysgol Feithrin sy'n cyfarfod yn Y Ganolfan. Prin oedd yr eglurhad ynglŷn

â'r argyfwng ariannol a phenderfynwyd estyn gwahoddiad i un o'r swyddogion i ddod i'r cyfarfod nesaf i egluro'r broblem. Adroddwyd fod ymdrechion ar y gweill gan rieni'r plant i godi arian. Gofynnwyd hefyd am gael gweld mantolen ariannol yr ysgol feithrin. Yn sgil hyn hefyd penderfynwyd na fyddai'r Cyngor yn rhoi cymorthdaliadau yn y dyfodol heb gael gweld copi o fantolen ariannol flynyddol mudiadau a wnai gais a chael gwybod faint o arian oedd yn y cyfrif banc.

CYNLLUNIO:

APCE:

- NP3/15/217A – trosi beudy yn uned gwyliau a creu mynedfa newydd i gerbydau a cerddwyr – Sgubor (The Barn) 4 Gwastadnant, Nantperis – gwrthwynebu ar sail bod hwn yn dŷ newydd i bob pwrpas. Mae mwy na digon o unedau gwyliau yn barod yn yr ardal.

APCE: Gwrthod:

- NP3/15/180C – gosod twnel polythen ffram ddur, Gorsaf Rheilffordd yr Wyddfa, Llanberis.

Y LLWYBRAU a'r FYNWENT:

Y Fynwent:

Cafwyd cwynion eto am gyflwr y biniau. Sut mae perswadio pobl i fynd a'r sbwriel gartref. Awgrymir rhoi arwydd i ofyn yn garedig i bobl fynd a'i sbwriel oddi yno. Tybed a fyddai modd cael bin mawr masnachol oddi wrth Cyngor Gwynedd?

Llwybrau:

1 Adroddwyd fod y bont ger Manllwyd yn cael ei thrwsio

2 Mae problem llwybr o Pyllau Dŵr i Stryd Ceunant yn dal heb ei ddatrys er gofyn eto i Cyngor Gwynedd.

MATERION ARIANNOL:

a) Yn y Banc ar yr 28ain o Fawrth 2014 -

Cyfrif Cyfredol: £9,462.45

Cyfrif Cadw: £5,333.46

Gwariant y mis=£2,630.35

Derbyniadau y mis = £0.

ADRODDIADAU O GYFARFODYDD ALLANOL LLE BU CYNRYCHIOLYDD O'R CYNGOR

1. Cafwyd adroddiad gan EB o gyfarfod Partneriaeth Llanberis. Mae'r Ganolfan Wybodaeth i aros ar agor am flwyddyn arall, diolch i gymorth oddi wrth Ras yr Wyddfa, Marathon Eryri, CG a'r Bartneriaeth.

Eto codwyd y cwestiwn ynglŷn â mudiadau sy'n cael nawdd yn cynnig nawdd!

2 Adroddwyd bod syniad ar y gweill i gofio dechrau'r Rhyfel Mawr ar Awst 4ydd, gofynnwyd am syniadau erbyn y cyfarfod nesaf.

3. Adroddwyd fod pobl ifanc y pentref, o dan gyfarwyddid arlunydd, wedi addurno Neuadd Fawr Y Ganolfan a gwahoddiwyd yr aelodau i'w gweld wedi'r cyfarfod. Gwelwyd fod y gwaith yn rhagorol, ac yn adlewyrchu bywyd a hanes y pentref a'r fro. Llongyfarchiadau.

Pryd i bawb

**Arlwyo at bob achlysur
Yn ynrhyw leoliad
Bwffe Blasus o Safon**

PRIODAS
CYFARFODYDD
BEDYDD•PARTI•TE
ANGLADD
BASGED PICNIC
BWYD YN UNIG. NEU
GWASANAETH LLAWN

CERID MACKINNON

(01286) 673190
Symudol 07774 925502



ORIEL CWM

CWM Y GLO

Gwasanaeth fframio Lluniau
o bob math
ar gael ar y safle

PRISIAU RHESYMOL
Arddangosfa o luniau
Gwreiddiol gan artistiaid lleol

Richard S. Humphreys

Ffon/ Ffacs-
(01286) 870882

POSH PAWS



TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8yb-4yp
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

SAMARIAID

Mae

Llinell Gymraeg

0300 123 3011

ar gael bob nos
rhwng
7.00pm ac 11.00pm



Priodas Llongyfarchiadau mawr i Aled Davies a Gemma Levey, 4 Nant Ffynnon, Nant Peris, ar achlysur eu priodas ar y 10fed o Fai. Cafwyd gwasanaeth hyfryd yn Eglwys Sant Peris dan ofal y Parch Carol Roberts ac nid oedd yn rhaid mynd yn bell i fwynhau'r brecwast priodas - codwyd marci arbennig yn Ty'n Lon a bu digon o ganu a dawnsio tan oriau mân y bore. Pob dymuniad da ic hi'ch dau yn eich bywyd priodasol.



Llongyfarchiadau i Elin Tomos am ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan sydd werth £3,000 i astudio Hanes a'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00)a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin



Tân Ar y Stryd Fawr

Plas Pengwaith Enillydd y Bêl Bonws am fis Ebrill oedd Margaret Roberts.

Sefydliad Prydeinig y Galon [S.P.Y.G.] Rhwng y 16 a 27 o Fehefin eleni bydd casgliad blynyddol o ddrws i ddrws S.P.Y.G. yn cael ei gynnal. Mae Cangen Caernarfon a'r Cylch o S.P.Y.G. yn gwahodd unrhyw un a fyddai'n barod i gasglu ym Mrynrefail neu Llanberis i gysylltu â'r trefnydd, Linda Jones [01286]673838. Mae S.P.Y.G. yn hyrwyddo ymchwil i achos a thriniaeth o glefyd y galon. Llauer o ddiolch, Tudor Ellis [Cadeirydd Cangen Caernarfon a'r Cylch o S.P.Y.G].

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Diolchiadau Dymuna Gareth, Eifion, Mair a'r holl deulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn dilyn eu profedigaeth o golli mam, nain, a hen-nain annwyl, sef y ddiweddar Enid Hughes, 31 Maes Padarn, Llanberis, a fu farw yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar yr 8fed o Ebrill 2014, yn dilyn salwch byr. Cynhaliwyd yr angladd yng

Nghapel Jerusalem, Llanberis ar y 15fed o Ebrill ac fe'i rhoddwyd i orffwys gyda'i phriod, y diweddar Ceris Wheldon Hughes, ym mynwent Nant Peris. Diolch i E.W. Pritchard, Llanberis am y trefniadau.

Fe dderbyniwyd rhoddion gyda diolch at Ward Padarn, Ysbyty Eryri, a Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH Dymuna Mairwen Baylis ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref. Diolch i staff Ward Enlli am y gofal arbennig ac, hefyd, i adrannau eraill o'r ysbyty a fu'n gofalu amdani. Diolch yn fawr i bawb.

Côr Dyffryn Peris Yn ddiweddar, mae'r Côr wedi teithio i eithafion Dwyrain a Gorllewin Gwynedd.

Ar y 13eg o Fai cawsom groeso arbennig gan gynulleidfa niferus yn Eglwys Sant John, Llandudno. Yr unawdwyr ar y noson oedd Gareth Hughes (Euffonium), Dafydd Roberts (Bariton) ac Ann Hafod (Soprano). Cyfeiriodd Arweinydd y Côr, a'r Unawdwyr, at fedrusrwydd y cyfeilio gan Steven Evans.

Nos Wener, 16eg o Fai, Ysgol Crud Y Werin, Aberdaron, oedd "man cyfarfod" y Côr. Cymerwyd rhan yn y cyngerdd gan Y Côr, John ac Alun, a nifer o ddeuawdau ac offerynwyr eraill, gyda Dilwyn Morgan yn cyflwyno. Roedd yr arian a godwyd yn mynd i Ward Alaw.

Diolch Yn dilyn triniaeth lawfeddygol ac yna gartref, dymuna John H. Hughes Glyder, 8 Ffordd Capel Coch, ddatgan ei werthfawrogiad diffuant am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd. Diolch i'w deulu, cymdogion a chyfeillion am y llu cyfarchion a'r rhoddion. Hefyd i feddygon a gweinyddesau Ward Enlli, Ysbyty Gwynedd am y gofal diflino a charedig, ac i Dr Robin Parry a Staff Cae Heti am y sylw manwl a gafodd. Diolch i bawb!

Diolchiadau Dymuna Hugh, Iris, Clare a Harri ddiolch o waelod calon i'r teulu a ffrindiau yn ardal Llanberis a ffrindiau Keith yng Nghaernarfon am bob arwydd o gydymdeimlad a'r geiriau caredig a dderbyniasant yn eu profedigaeth sydyn o golli Keith. Hefyd, diolch i'r Parch Ddr Carol Roberts am wasanaeth teyrngarol ac i Padarn Lake am y wledd. Diolch i Gwynfor a Jane am eu gofal caredig a thrwyadl.

Rhoddwyd yr arian a dderbyniwyd er cof am Keith, at Ymchwil Y Galon.

Plas Pengwaith.

Cafwyd cyfarfod buddiol ym Mhlas Pengwaith ar y 7ed Mai gyda'r cyfeillion, preswylwyr a'r staff. Mae'r diddordeb yn dda, perthnasol a hwyliog gyda phaned a chacen yn cael ei baratoi gan y Cartref.

Cafwyd post mortem ar y sel Cist Car a gynhaliwyd yn y Ganolfan ar y 12ed Ebrill, ac er mai siomedig oedd nifer y cwsmeriaid gwnaed elw oddeutu £300, diolch am y defnydd o'r Ganolfan ac i bawb a gyfrannodd mewn llawer ffordd.

Cyn y bydd y rhifyn nesaf o'r Eco wedi ymddangos byddwn wedi cynnal diwrnod yn y Cartref ar y 1af Mehefin, Sel Cist Car, BBQ ac Adloniant gyda'r Parti Glas Lanciau.

Dyddiad i'ch dyddiadur i'w gadw mewn cof ydi 26 Medi 2014, pryd y cynhelir cyngerdd yn y Ganolfan Gymdeithasol Llanberis gyda'r artistiaid Dilwyn Morgan, Y Glas Lanciau, Cadwyn ac eraill. Dewch yn llu ac archebwch eich tocynnau o'r Cartref.

ECO'r Wyddfa

Cefnogwch ein hysbysebwy

DODDREFN PERKINS

2 Ganolfan Pen-Ilyn, Caernarfon, Ffôn (01286) 676040
Hefyd yn-16 Stryd Porth Mawr. Caernarfon Ffôn (01286) 673535

Pob math o ddodrefn tŷ
Cegin • Ystafell Fyw • Lloft
— PRISIAU CYSTADLEUOL —
Carpedi • Llenni a Lloriau Pren

Ffon- (01286) 676040

GERAINT OWEN CARPEDI

CARPEDI • VINYLS • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Ysgol Gynradd



O ble mae bwyd yn dod.

Croeso i Mr Iestyn Owen i'r ysgol. Mae Mr Owen yn gweithio ym mlwyddyn 2 yr ysgol, yn cwblhau ei gyfnod ymarfer dysgu.

Mae disgyblion y dosbarth Meithrin a Derbyn wedi mwynhau gweithio ar y thema 'Bwyd'. Aethant ar ymweliad yn ddiweddar â Tesco Caernarfon er mwyn dysgu o ble y daw bwydydd gwahanol. Cawsant groeso mawr yn yr archfarchnad a diolchwn yn fawr i'r staff yno.

Mae disgyblion blwyddyn 1 a 2 wedi bod yn weithgar tra'n ymwneud â'r thema 'Sinderela'. Cafwyd llawer o hwyl wrth gloi'r thema pan gynhaliwyd parti mawreddog i ddathlu priodas Sinderela. Roedd y plant wrth eu bodd a phawb yn mwynhau yn eu gwisgoedd crand.

Cylch Meithrin Llanrug

Pêl Bonws Enillwyr Pêl Bonws y Cylch hyd yn hyn: Mawrth 22 – Tammi Gwyn; Mawrth 29 – Lowri Peres; Ebrill 5 – Cylch Meithrin; Ebrill 12 – Cylch Meithrin; Ebrill 19 – Moira Owens; Ebrill 26 – Lynne Shudlack; Mai 3 – Nichola Jones; Mai 10 – Cylch Meithrin; Mai 17 – Gwenan Jones.

Noson o flas gwin Nos Wener, Mai 9fed, cynhaliwyd noson hwyliog iawn o flas gwin yng nghwmni'r Parchedig Marcus Robinson yn yr Institiwt, Llanrug. Diolch yn fawr iawn i bawb a gefnogodd, i Marcus Robinson am ei amser a'i wybodaeth hwyliog a difyr am y gwinoedd, ac i aelodau'r pwyllgor am y trefnu.

Swydd arweinydd Cylch Ti a Fi, Llanrug

Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gyhwyn ym

Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefin

Bore Agored/Beicio Noddedig Mae Bore Agored y Cylch wedi ei drefnu Fore Mawrth, Mai 20fed 9.00 – 11.00. Bydd y plant yn cymryd rhan mewn sesiwn beicio noddedig o amgylch iard yr ysgol yn ystod y bore ac yna bydd cyfle i rieni/gwarchodwyr ddod i mewn i'r cylch am ddiod, cacen a sgwrs anffurfiol.

Ffair Haf Cynhelir Ffair Haf y Cylch/Clwb Cinio nos Fercher, Gorffennaf 9fed, yn neuadd yr Ysgol Gynradd am 6.15 y.h

Llongyfarchiadau i Eleri Jones a Heledd Richards ym mlwyddyn 6. Mae'r ddwy wedi ennill cystadleuaeth ysgrifennu pennill am Lanrug. Bydd eu pennill yn rhan o gerdd fawr sydd yn cael ei lawnsio gan Aneurin Karadog (Bardd Plant Cymru).

Roeddem yn falch iawn o'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn Ras Faenol yr Urdd (Cylch Arfon). Llongyfarchiadau arbennig i Caitlin Forrest am ddod yn gyntaf yn y ras i ferched blwyddyn 4.

Dymunwn yn dda i Nanw Llwyd a Tomi Llywelyn yn Eisteddfod Genedlaethol Yr Urdd, Bala. Bydd Nanw yn cystadlu ar yr unawd chwythbrennau (dan 12 oed) a Tomi ar yr unawd alaw werin (dan 12 oed). Pob dymuniad da iddynt.

Pwyllgor Cynhelir cyfarfod nesaf o bwyllgor y Cylch nos Fercher, Mehefin 11eg, am 7.15 y.h yn adeilad y Cylch – croeso cynnes iawn i bawb.

Cofrestru plant newydd Os yw eich plentyn yn cael eu pen-blwydd yn 3oed rhwng Medi 1af 2014 ac Awst 31 2015 ac yn dymuno cychwyn yn y Cylch, mae ffurflenni cofrestru ar gael yn y Cylch (01286 674020).

Diolch o Galon Dymuna Bedwyr, Gwên y Wawr, Glanffynnon, ddiolch i Lisa, y teulu oll a'i ffrindiau am sicrhau pen-blwydd i'w gofio iddo. Diolch am y llu cardiau, negeseuon ac anrhegion. Diolch o galon i chi i gyd.

Llongyfarchion Pen-blwydd

Dymunir llongyfarch Mrs Gaynor Williams, gynt o Crawia, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 28ain o Ebrill. Mae yn awr yn byw yn

Ninbych wrth ymyl ei merch, Gwenifer. Mae yn dal i fyw yn ei chartref ei hun ac yn heini iawn o'i hoed. Pob dymuniad da iddi.

Hefyd, fe ddathlodd Mrs Mona Griffiths, 2 Hafan Elan, ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed ar y cyntaf o Fai. Dymuniadau gorau iddi gan obeithio ei bod wedi mwynhau y dathlu.

Roedd Mrs Kattie Davies, 5 Hafan Elan, wedi dathlu ei phen-blwydd hithau ar y Sed o Fai, yn 93 mlwydd oed. Mae rhywbeth yn yr aer yn Hafan Elan!! Llongyfarchiadau mawr i'r ddwy ohonoch.

Plaid Cymru Enillwyr Clwb Cant mis Mai yw: 1. Carrie Owen, Ty Fry; 2. Paul Rowlinson, Bethesda.

Y Sefydliad Coffa Enillwyr Clwb Cant Mis Ebrill yw: 1. M. Roberts, 7 Afon Rhos; 2. A. Jones, 12 Hafan Elan; 3. G. Kirkpatrick; 4. Hafan Elan.

Profedigaethau

Cydymdeimlwn yn ddiffuant â'r canlynol yn eu profedigaethau diweddar:

Bu farw Mr Efan Jones, Ffordd Glanffynnon. Nid oedd wedi bod yn byw yn Llanrug ers amser hir ond wedi gwneud dipyn o ffrindiau yn yr amser hwnnw. Cydymdeimlwn â'i weddw, Emyr, Nia a'r genod, Glanffynnon, a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Yn dilyn salwch hir, bu farw Vivien Lewis, gynt o Rhos Rug, yn 69 mlwydd oed. Roedd wedi cartrefu yn Llanllyfni ers blynnyddoedd a chydymdeimlwn â'i deulu yno. Cofion yn arw at Nerys, Carys, Arfon, Ian a Gwyndaf Lewis a'r

teulu yma yn Llanrug.

Ar y 6ed o Fai bu farw Arthur Evans, 15 Hafan Elan (gynt o Dan y Coed), yn 65 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn arw â'r teulu a'i ffrindiau oll yn eu profedigaeth a'u colled.

Arholiadau Ysgol Mae tymor yr arholiadau TGAU, AS ac UWCH yn cychwyn a phrofion plant 9-10 oed ysgol Gynradd – pob dymuniad da i chi i gyd a phob lwc.

Diolchiadau Dymuna Mona Mai Griffiths, 2 Hafan Elan, ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a blodau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 90 oed ar Fai cyntaf. Diolch yn fawr iawn.

Capel y Rhos

Aeth nifer dda o blant yr Ysgol Sul am benwythnos I Goleg y Bala. Cawsant dywydd braf ac roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolch diffuant iawn I'r athrawon aeth yno gyda'r plant.

Braf yw cael llongyfarch un o'n haelodau ar gael ei derbyn I Orsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod ym mis Awst. Bydd Miss Haf Thomas yn cael ei hurddo am ei gwaith clodwiw dros y blynnyddoedd yn casglu arian I wahanol elusennau. Mae Haf wedi dewis elusen Marie Curie eleni a braf fydd cael ei chefnogi unwaith eto.

Rydym yn anfon ein cofion anwylaf at Mrs Eirian Roberts yng Nghaerdydd gan ei bod yn cael triniaeth I'w throed wythnos nesaf. Mae Mrs Megan Williams, Bron Eryri wedi mynd I aros at Eirian ac Elfed a bydd yn aros yno nes bydd Eirian yn gallu cerdded o gwmpas unwaith eto. Dymuniadau gorau I Eirian – ac mae'n siŵr na chaiff hi ddim gwell nyrs na'i mam yn ystod y cyfnod yma.

Oedfaon Mis Mehefin

- Mehefin 1 – Parch Marcus Wyn Robinson y Gweinidog
- Mehefin 8 – (Penetcost) Parch Ieuan Lloyd
- Mehefin 15 – Y Gweinidog
- Mehefin 22 – Mrs Mair Penri
- Mehefin 29 – Mr Arwel Williams

Noson Ffeirio Dillad

(plant, oedolion, sgarffiau, hetiau, gemwaith, ayyb)

Nos Fercher, 16 Gorffennaf
yn ysgol Gynradd Llanrug
am 7 y.h.

Pawb yn talu £1 am bob eitem a roddir i'w gwerthu.
Am bob eitem fe gant ddewis eitem arall.
Eitem am Eitem
Mynediad £1 yn cynnwys paned theisen.
Bydd raffl ar werth hefyd.
Elw at Ambiwlans Awyr Cymru

Merched y Wawr

Nos Fawrth, Mai 13eg, croesawyd nifer teiwlwg i'r Cyfarfod Blynnyddol a chychwynnwyd y noson gyda ChànyMudiadachadarnhawyd cofnodion blynnyddol 2013. Bu'r dasg o ethol swyddogion yn ddigon rhwydd ar gyfer 2014-15 gyda Menna yn Llywydd, Eryl yn Is-lywydd; Megan yw'r Trysorydd a Pat yn Is-drysorydd; Bethanne yn Ysgrifennydd; Nan yw'r Is-ysgrifennydd, Anna Mary yn Ohebydd y Wasg ac Olwen yn Ddosbarth-wraig y Wawr. Etholwyd Eirian, Iris, Meirwen a Cari yn aelodau o'r Pwyllgor.

Ar bwyllgorau'r Rhanbarth – Margaret ac Eryl ar Bwyllgor yr Anabl; Ann Lloyd ac Olwen – Celf a Chrefft a Phyllis a Myfanwy ar Bwyllgor y Dysgwyr.

Bu canmol mawr i arlwy y Pum Rhanbarth ym Mangor, Sadwrn 10fed. Dymunir yn dda i Meirwen fel Llywydd y Pum Rhanbarth yn 2015. Bydd Sefydliad y Galon yn trefnu casgliad o dy i dy o Fehefin 14-28. Bydd y Pwyllgor yn falch dros ben o unrhyw gymorth efo'r casglu. Os am helpu cysylltwch â Linda (673838).

Derbyniwyd llythyr o ddiolch gan Gisda am y rhodd ariannol fydd yn cael ei defnyddio i gynorthwyo pobl ifanc sydd mewn angen neu argyfwng.

Cynhelir Ffair Haf Merched y Wawr Arfon yng nghanolfan Capel Ebeneser Caernarfon fore Gwener, Mehefin 6ed o 10y bore hyd 12 o'r gloch. Pris mynediad £1 – yr elw at 'Lloches i Ferched'.

Cynhelir Noson Celf a Chrefft a Chystadleuaeth Llanelwedd Rhanbarth Arfon yn Neuadd Bentref Tregarth nos Wener,

Mehefin 20fed. Mynediad £2 wrth y drws i gynnwys paned a thocyn raffl; 6.30 i'r aelodau sydd yn cystadlu, 7.30 i'r aelodau eraill. Eleni croesewir stondinwyr o Farchnad Ogwen i arddangos a gwerthu rhai o'u nwyddau – hwy hefyd fydd yn beirniadu'r cystadlaethau.

Penderfynwyd rhoi cyfraniad at Ffair Haf Penbont – elw at godi arian i Chelsea ymweld â De Affrica.

Trefnir Tair Trên Bach Rheilffordd Llyn Padarn tuag at Ymchwil Cancr Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd ar nos Wener, Mehefin 6ed. Tocynnau ar gael gan Linda, Pant Mwyn (673838). Bydd lluniaeth ysgafn ar ddiwedd y daith. Dymuniadau gorau i'r aelodau sy'n cynrychioli'r gangen yn y Bowlio Deg nos Wener, Mehefin 13 am 7.00 yn Llandudno.

Wedi'r trafod, mwynhawyd gwledd o luniaeth poeth o gynnyrch lleol o Siop Roberts Felinheli. Gan eu bod wedi methu dod atom derbyniwyd paciau o fwyd wedi'u rhewi ar gyfer ein Cyfarfod Blynnyddol a bu Olwen, Nan ac aelodau o'r Pwyllgor yn brysur iawn yn eu coginio ac roedd pawb wedi mwynhau'r cynhwysion o radd uchel gyda blas bwyd cartref. Diolchir iddynt am eu caredigrwydd. Diolch hefyd i'r Pwyllgor am y teisennau bendigedig i ddilyn. Diolch i Pat a Jennie am ofalu am y baned.

Mehefin 10fed edrychir ymlaen at ein taith Ddirgel. Bydd y bws ym Mhenisarwaun am 5.45, yn Stryd yr Orsaf ac yn Sgwâr Llanrug am 7.00. Gobeithir am dywydd braf a chwmni llon.

GAREJ

CERIS JONES

Trwsio ceir a faniau Gwaith MOT Mecanic profiadol iawn Prisiau cystadleuol

Llanrug 01286 677362 07979620996



(o'r chwith) Y Parchedig Gwenda Richards, Mrs Pat Parry, Mr Eurwyn Griffiths, (blaenoriaid), Mrs Catherine Jones a'r plant.

Cydnabod Gwasanaeth

Bore Sul, 29ain o Ebrill, yn Eglwys y Waun, anrhegwyd Mrs Catherine Jones mewn cydnabyddiaeth o'i chyfraniad amhrisiadwy fel organydd am dros 70 mlynedd. Comisiynwyd plât yn arbennig ar ei chyfer o Grochendy Rhymni ac fe'i cyflwynwyd iddi gan y Parchedig Gwenda Richards a rhai o blant yr eglwys. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth diflino a'i pharodrwydd bob amser i gynorthwyo yng ngwaith yr eglwys.

Swydd arweinydd Cylch

Ti a Fi, Llanrug Mae Cylch Meithrin Llanrug yn chwilio am arweinydd newydd ar gyfer Ti a Fi i gychwyn ym Mis Medi.

Rydym yn chwilio am berson ymroddgar, brwdfrydig a chyfeillgar i arwain y sesiynau Brynhawn Mawrth (13:00-15:00) a Bore Gwener (09:00-

11:00).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Nichola yn y Cylch - 01286 674020. Dyddiad Cau: 20fed o Fehefn

Clwb 300 Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill yw: £30: Mr Bryn Pritchard, Min y Grug; £20: Mr J.H. Jones, Bryn Derwen; £10: Mr a Mrs S.

Jones, Ty'n y Cae.

Sefydliad y Merched Yn y cyfarfod ar Ebrill 3ydd y gwr gwadd oedd Richard Gould o Ganolfan Arddio Holland Arms. Roedd wedi dod â llawer o blanhigion i'w dangos felyrhaf mwyaf poblogaidd i'w plannu yr amser yma o'r flwyddyn. Dangosodd hefyd sut i wneud basged grog a photiau wedi eu plannu gyda gwahanol blanhigion. Rhoddodd un o'r potiau oedd wedi eu plannu yn wobwr raffl ac enillwyd hwn gan Rosie. Diolchodd Catherine i Richard am bnawn diddorol iawn. Enillwyd y raffl wedi ei rhoi gan Hilda, gan Ann.

Ar Fai 1af croesawodd Catherine, y Llywydd, Pat Jones, Llywydd y Sir, i'r cyfarfod. Roedd wedi dod i drafod y 'Penderfyniad' sydd yn mynd i gael ei gynnal yn y Cyfarfod Blynnyddol sydd yn cael ei gynnal yn Leeds ym mis Mehefn. Y mater yw 'Codi mwy o rodd o organau a'r sefyllfa yng Nghymru'. Eglurodd Pat y cwestiwn yn drwyadl iawn a bu cryn drafod ar y mater gyda'r aelodau a phasiwyd yn unfrydol i gefnogi'r 'penderfyniad'. Diolchodd Catherine i Pat am roi o'i hamser i ddod atom.

Priodasau

Llongyfarchiadau Dymunwn bob hapusrwydd i Elin Huws, Argoed a Meurig Jones o Gaernarfon ar eu priodas. Priodwyd y ddau yn Eglwys y Waun gyda Nan Wyn yn gweinyddu a Iola Llywelyn wrth yr organ a'r delyn. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

Ar yr un dydd Sadwrn, sef Ebrill 26, priodwyd Alwena Williams, Stad Ael y Bryn a Malcolm o Bontnewydd yng Nghapel Glanrhyd. Dymuniadau gorau iddynt hwythau.

Dymunwn yn dda hefyd i Dr Gwilym Siôn Pritchard (Syrjyri Liverpool House) ar ei briodas o ac Elen o Langefni. Dymunant fynegi eu diolchgarwch twymgalon am garedigrwydd pobl ardal yr Eco tuag atynt ar achlysur eu priodas. Diolch am bob neges, cerdyn a rhodd. Gwilym ac Elen Pritchard, Penygroes.

Genedigaethau

Llongyfarchiadau i Claire a Simon, Stad Llys y Waun, ar enedigaeth merch fach, Aila Swsi, chwaer i Abi ac wyres fach i Llywela a Dafydd, Stad Tref Eilian a gorwyres i Nansi a Gwynedd Williams, Bro Waun.

Ganwyd merch fach, Beca Tirion, i Martin a Bethan Beech, Trem Arfon. Chwaer i Teilo ac wyres i Yvonne a Dafydd Beech, Rose Mount.

Merch fach, Llio Mai, a anwyd i Rachel, Stad Ty Hen, wyres fach i Lyn a Barry Hanks, Dôl Erddi.

Llongyfarchiadau i'r teuluoedd a phob hwyl gyda magu y rhai bach.

Bedydd Fore Sul y Pasg, yn Eglwys y Waun, gyda'r Barchedig Gwenda Richards yn gweinyddu'r gwasanaeth arbennig bedyddiwyd Ellie, merch fach Nia a Darren, Llangefni, chwaer i Chloe a wyres i Menna ac Elfyn, Blaen y Nant, Stad Bod Hyfryd.

CEIR CYMRU



Diolch am Gefnogaeth ein Cwsmeriaid yn Eryri dros **25** Mlynedd

gareth.w.jones@hotmail.co.uk
www.ceircymru.com

Bethel (B4366) Caernarfon Gwynedd LL55 1UN
01248-671770/670451

YSWIRIANT FUW



Hoffech chi hybu
BWYD LLEOL
BUSNESAU CEFN GWLAD
ECONOMI WLEDIG

Trwy gefnogi Yswiriant FUW?
Yswiriant car, tŷ neu unrhyw fusnes

Dafydd P. Jones 01492 642683
Dwyrain Sir Gaernarfon
Buddsoddi yn eich cymuned

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi a'i reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol. Yng nghyd-destyn cyfryngu yswiriant o dan Rhif Cofrestru 308935

Cofion Gorau Anfonwn ein Cofion cynhesaf at Mrs Janet Smith, Rhoslan, sydd wedi ymgartrefu yn awr yng Nghartref Preswyl Y Foelas, Llanrug.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mrs Nansi Williams, Bro Waun; Mrs Janet Hughes ac at Mr Norman Williams, Llidiart Wen, wedi iddynt fod yn yr ysbyty. Hyderwn yn fawr eich bod yn gwellla.

Profedigaeth Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd bu farw

Mr Rol Williams, Ardwyn. Bu'n weithgar iawn yn y pentref yn trefnu nosweithiau cymdeithasol. Efoedd trefnydd y Gymdeithas Lenyddol yma.

Cydymdeimlwn yn ddwys â'i fab, Gethin, a'i deulu ac â Catherine, ei chwaer a'i frawd, Ifan Wyn, yn eu profedigaeth.

Dymuno'n Dda bydd rhai o blant y pentref a'r ardal yn cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn y Bala yn ystod wythnos olaf mis Mai. Dymunwn yn dda i bob

un ohonoch. Mwynhewch y profiad.

Plaid Cymru Cynhelir noson yng nghwmni Geraint Lovgreen yn Nhafarn y Snowdonia Parc Waunfawr ar nos Wener, 13 o Fehefin am 8.30 o'r gloch. Tocynnau yn £8 ac ar gael ymlaen llaw o'r dafarn

(650409) neu trwy gysylltu â Hawys (650198) neu Eurig (650512). Croeso cynnes i bawb.

Cais Os ydych am longyfarch, dymuno yn dda, neu nodi digwyddiad yn yr Eco, dowch â'r manylion i mi os gwelwch yn dda.

- Gwasanaethau'r Capel yn ystod Mehefin**
- 1: Dr Tudor Ellis
 - 8: Gweinidog (Pentecost)
 - 15: Mr Richard Ll. Jones
 - 22: Gweinidog

Rol.

Yn ystod y mis diwethaf bu farw Rol Williams, Waunfawr, cyfrannwr selog i "Eco'r Wyddfa" ar hyd y blynyddoedd, ac un a allai fod yn llym ei dafod ar brydiau, yn enwedig ar faterion ieithyddol a diwylliannol o fewn ein cymunedau. Anfonwn ein cydymdeimlad tuag at y teulu yn eu colled, a chyhoeddwn yma ddwy deyrnged iddo gan gyfeillion agos.

Cofio Rol.

Nid yn aml y ceir cymeriadau unigryw erbyn hyn, ac yn wir, credaf eu bod yn mynd yn brinnach, a chymdeithas yn dioddef o'u colli. I mi, cymeriad unigryw oedd Rol, sef Rolant Ffowc Williams, er nad oedd yn hoff o gwbl o'i ail enw, a phrin y byddai yn cyfeirio ato. Ganed ef ym mhentref Brynrefail gan hannu o deulu'r Llys; ac yn un a folai ei ardal bob amser.

Yn dilyn cyfnod llwyddiannus yn yr Ysgol Sir, a honno ar y pryd ym Mrynrefail, bu'n rhaid iddo fel llawer un arall o fechgyn Cymru, ufuddhau i'r alwad i ymuno â'r fyddin oherwydd cyflafan yr Ail Ryfel Byd. Ymunodd Rol â'r Awyrlu, a bu'n aelod o'r 'Bomber Command'. Bu'n gwasanaethu mewn sawl gwrsyll ar hyd a lled y wlad, gan ddiweddu ei wasanaeth yn yr Aifft.

Yn dilyn y rhyfel aeth Rol i weithio i swyddfa'r 'War Ag.' Yna ymlaen i adran amaethyddol y Weinyddiaeth. Bu ei yrfa'n llwyddiannus, gan ddringo i fod yn Wasanaethwr Sifil. Daeth yn adnabyddus a phoblogaidd iawn yn ei swydd, a gwyddai am bob fferm a thyddyn yn hen siroedd Caernarfon a Meirionnydd.

Ar hyd ei oes bu Rol ar dân yn cyfrannu i ddiwylliant ei fro. Ef oedd yr aelod gwreiddiol olaf o Glwb Eryri, a phan ddathlwyd hanner canrif o fodolaeth y sefydliad oedd mor agos i'w galon, ysgrifennodd lyfryn diddorol yn olrhain hanes y Clwb. Cofir hyd heddiw am Barti Eryri, criw o ddynion a merched fu'n swyno ardaloedd Cymru mewn cyngherddau. Ie, Rol oedd tu ôl i'r parti hwn, ac fe gofir am ei ddawn arbennig fel arweinydd cyngherddau a chyfarfodydd eraill. Sawl tro y clywyd ei lais treiddgar ar y radio a'r teledu; ei Gymraeg mor lân a chywir, a'i bersonoliaeth mor gryf. Do, bu'n ddarlledwr cyson ar y cyfryngau, gan ddatgan ei feddwl yn glir a chryno.

Edmygwn Rol am y ddawn oedd ganddo i ysgrifennu llythyrau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Meddai ar eirfa gyfoethog yn y ddwy iaith, gydag arddull broffesiynol.

Byddaf wrth fy modd yn gwrandao ar Hogia'r Wyddfa yn canu'r gân boblogaidd 'Bysus bach y Wlad', a chael darlun o'r hen fysis a weinyddai mor hwylus i noddi anghenion pobl cefn gwlad y dyddiau gynt. Ie, Rol oedd awdur y geiriau. Gallai delynegu'n swynol dros ben; weithiau'n hynod dyner a theimladwy. Yr oedd y llenor yn gryf ynddo, gan feddu ar ddoniau creadigol. Ysgrifennai ar yr

hyn oedd yn agos iawn at ei galon: llyfrau megis hanes Rheilffordd yr Wyddfa, deiliaid Cwm Brwynog gynt, ac fe gaed ei hunangofiant hefyd.

On d yr angerdd dros yr hyn a gredai a edmygwn fwyaf o'r bron yng nghymeriad Rol. Fel pob meidrol yn arall, weithiau gallai fod yn anghywir mewn syniadaeth, ond brwydrai i'r carn dros yr hyn a gredai. Weithiau, ni dderbynid yr hyn a ddywedai, a byddai yn colli ei dymer gan felltithio! Hwyrach mai gwendid oedd hyn, ond ni ellid peidio a'i edmygu.

Yn sicr, credaf fod Rol yn gymeriad unigryw mewn gair a gweithred, a hynny am ei fod mor ddawnus. Tua diwedd ei oes hiraethai o golli ei wraig annwyl, Gwenlli, ac yr oedd hefyd mewn hiraeth o'r diwylliant hwnnw a brofodd flynyddoedd yn ôl, ac na welir ei fath byth eto.

Bydd ein bro yn teimlo colli Rol, gan gofio ei fywyd lliwgar a'r hyn a gyfrannodd mor hael i ni.

John Hugh Hughes, Llanberis.

Blodau

Racca

PENISARWAUN

Rhodod o'r Galon

Yw Blodau

Basgedi Planhigion

Basgedi Crog

Planhigion Gardd

Hefyd, Compost ar werth

Alwyn a Sarah Jones

(01286) 870605

RHOSTIO

MOCHYN

Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

AR GYFER

POB

ACHLYSUR

DEWGS MAE O'N FLASUS

PARTION • PRIODASAU • PEN BLWYDD

BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

CIG O FFERMYDD LLEOL

PARTION RHWNG 40-400!

Cysylltwch a

John Brynafon

LLANRUG

www.ydyncig.co.uk

675190 • 673188

Symudol - 07798 718188

Cofio Rol.

Un peth a'm trawodd i wedi colli Rol oedd y tawelwch clywadwy. Y ffôn ddim yn canu: 'Gwranda! Rol sy'ma. Deud i mi, pwy...?' Bu'n siaradwr llifeiriol, yn enwedig pan fyddai ganddo bwnc at ei ddant, neu sgôr i'w setlo. 'Gwranda, Rol sy'ma. Dw i am sgwennu i Eco'r Wyddfa. Dydi'r peth ddim yn iawn...'. Ar adegau felly, byddai'n anodd cael gair i mewn, hyd yn oed wysg ei ochr. Er, wedi iddo golli Gwenlli, ei briod, aeth y fflam i losgi'n is. Yn annisgwyl, Radio Cymru a ddaeth â ni at ein gilydd. Bu Rol am flynyddoedd yn aelod disglair o'r rhaglen Penigamp; math o chwarae ar eiriau, tu ôl i feicroffon ac o flaen cynulleidfia. Ond pan oedd y gyfres yn tynnu'i thraed ati daeth gwahoddiad i minnau i ymuno â thim y gogledd – neb arall ar gael, mae'n debyg.

Fe'i crewyd gyda ffiws fer, hawdd i'w chwythu, gyda'r posibilrwydd o gychwyn tân. Byddai'n cydnabod hynny, gyda gwên. Meddai am ei fam, yn ei hunangofiant: 'Ganddi hi y cefais un o'm llu ffaeiddau, sef y duedd i wylltio braidd yn rhy sydyn...'. O'r herwydd, bu'n llythyrwr brwd at hwn ac arall, ac i bapurau newydd. O deimlo annhegwch, 'Annwyl Syr' amdani. Bydd yn chwith i'r Daily Post a'r Caernarvon and Denbigh Herald am ddeunydd cychwyn tân, dechrau trafodaeth ac, ar dro, newid yr amgylchiadau.

Unwaith y byddai wedi dod i benderfyniad, anodd os nad amhosibl, fyddai ei berswadio i newid cyfeiriad. Wrth sgwennu broliant i'w hunangofiant bûm yn ymliw arno i feddwl eto. Doedd Nid Roc... ond Rol ddim yn esmwyth i'r glust, a'r is-deitl wedyn, 'O'r Llys i'r Garreg Fawr', yn deud y cwbl. Ond Nid Roc... ond Rol a gariodd y dydd.

Yn yr hunangofiant, croniclodd ei daith ddiwyd yn ddiddan a graenus. O'r herwydd, ddydd ei angladd, doedd dim rhaid i mi roi bywgraffiad o'i siwrnai; un Rol oedd yna, hawdd iawn i'w nabod.

Anaml y byddai'n cuddio'i deimladau nac yn cyfrif deg cyn mynegi barn Ond roedd Rol Williams gyda'r enghraifft olaf o'r hunan-ddiwylliedig. Un na chafodd gyfle ar addysg bellach – ac mi fyddai hynny, ar dro, yn halen ar y briw iddo – ond a lwyddodd serch hynny, neu oherwydd hynny, i daro deuddeg. Eto, nid y mute inglorious Milton oedd o ond un o'r olaf rai i fanteisio ar y diwylliant a oedd yn ei gynefin, ei arddel a'i ddynwared. Oherwydd hyn, hwyrach i'w gyfraniad fod yn fwy unigryw.

Profodd ei hun yn gyfathrebwr medrus ar yr awyr ac mewn print. Bu'n llais cyfarwydd ar Radio Cymru, yn cyflwyno Wythnos i'w Chofio, yn achlysurol, am flynyddoedd lawer ac yn sgwrsiwr cyson ar raglenni fel Wedi'r Oedfa neu Rhwng Gŵyl a Gwaith. Ymhlith ei gyfrolau, ar wahân i'w hunangofiant, roedd Bysys Bach y Wlad, Heibio i Hebron, Three Stops to the Summit a'r gyfrol a darodd ddeuddeg i mi, Pobl Tu Ucha'r Giat. A'i gyfraniad arbennig wedyn i'f yd adloniant ysgafn, yn sgwennu

caneuon sionc i Rosalind a Myrddin, Hogiau'r Wyddfa a Pharti Eryri: 'Hen Lwybr y Mynydd', 'Bysys Bach y Wlad' neu 'Gwaun Cwm Brwynog'. Ond dyddiau Parti Eryri oedd y blynyddoedd gleision i Rol, ac i'r aelodau; teithio Cymru, a thu hwnt, i neuaddau neu festrioedd a chodi'r to wedi cyrraedd yno.

Dyn dau gynefin oedd Rol, yn bennaf: Brynrefail, lle'i maged, gyda'i frawd Ifan a'i chwaer Catherine; a'r Waunfawr, wedi priodi merch teulu diwylliedig y Garreg Fawr. Cafodd sefydliadau a digwyddiadau'r cynefinoedd hynny ei gefnogaeth lwyr; Eco'r Wyddfa, a oedd mor agos at ei galon a Chlwb Eryri. Yna'r capeli wedyn, Brynrefail ei ieuencid, Bethel ac yna Eglwys y Waun. Fel rhan o ddiwylliant y byddai Rol yn meddwl am eglwys a chapel – yn werth i'w arddel a'i gefnogi – a minnau wedyn yn rhoi i'r Ffydd Gristnogol ddyfnach bwriad. O'r herwydd, trafod llenyddiaeth y byddem ni a byth braidd yn trafod diwinyddiaeth. Bu chwaraeon, hefyd, yn rhan fawr o'i fyd crwn.

Ond adeg yr Ail Ryfel Byd bu ymhell iawn o'i gynefin. O'i nabod, mewn dyddiau diweddarach, anodd coelio iddo wneud cais am fod yn beilot ond bodloni ar fod yn fecanic awyrennau. Yn ystod ei ddyddiau yn yr Awyrlu bu'n hedfan, droeon, meddai, uwch pyramidiau'r Aifft. Mewn dyddiau diweddarach, ofnai groesi Pont y Borth oherwydd ei huchder! Gweithio i'r Weinyddiaeth Amaeth y bu wedyn, gydol ei ddyddiau gwaith.

Ddydd ei angladd teimlwn fy mod yn ffarwelio â dau. John Morris, Prifathro ysgol Aberdaron, a gollwyd yn y drasiedi honno ym Mhorthoer yn haf 1977 oedd y llall. Maged y ddau yn yr un feithrinfa, yn driw i'r un gwerthoedd a dod yn wir gyfeillion. Byddai Rol yn falch o wybod i'w weddw deithio i'w angladd bob cam o Aberdaron bell. Er y byddai John Morris yn dweud, ar bob achlysur, mai pobman arall oedd ymhell o Aberdaron.

Roedd Rol yn ddyn gwreiddiau a theulu. Aeth hyd hanner ei hunangofiant i olrhain ei deulu. Er i'w frawd gyrraedd i'r angladd, chwith oedd deall na allai ei chwaer fod yn bresennol oherwydd ei phrofedigaeth, a'i gwaeledd. Gethin, y mab, oedd kannwyll llygaid Rol a Gwenlli. Ac fel y dywedais i yn yr arwyl, anghytuno y byddai Rol ac yntau yn amlach na pheidio – a Gethin yn amenio hynny'n glywadwy – ond eto deuai'i enw i mewn i bob sgwrs.

Do, fe'i cefais yn gyfaill hoffus a diddan, gyda'r wên honno 'na phylodd amser' – wel, ddim yn llwyr beth bynnag. Pan ddeuai i'n tŷ ni am damaid a sgwrs, ond nid yn aml, ni ddeuai byth yn waglaw. Traffig unffordd fyddai hi amlaf: 'Gwranda! Rol sy'ma. Fedri di bicio â fi...'. Bu ei gyfraniad yn un sylweddol. Ydi, 'mae'n chwith. Pwy lenwith ei le?' Cyn belled ag y mae Rolant Ffowc Williams yn y cwestiwn – neb. 'Gwranda! Rol sy'ma. 'Ia?' 'Be oedd isio iti ddeud y gair 'Rolant' 'na?' Harri Parri



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
williamshy@parliament.uk



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
neu
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Cerddorion Ifanc y Flwyddyn.



Dau o bobl ifanc ardal yr Eco cafodd eu coronni yn “Gerddorion Ifanc y Flwyddyn 2014” gan Glwb Rotari Caernarfon eleni. Cynhalwyd y gystadleuaeth yn Theatr Seilo, Caernarfon, ar nos Wener Mai 16eg. Cipiodd Math Roberts o Blwyddyn 10 Ysgol Brynrefail y gwpan i flynyddoedd 10-13, a Magi Tudur ennillodd yng nghategori blynyddoedd 7-9. Mae’r gystadleuaeth yn cael ei chynnal yn flynyddol i gynrychiolwyr o Ysgol Brynrefail, Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Llongyfarchiadau calonnog i chi’ch dau!

Sioe Bioamrywiaeth Llyn Padarn 7 Mehefin 2014.

Mae tim prosiect ‘Caru ein Llyn’ yn gwahodd teuluoedd, preswylwyr, busnesau a chefnogwyr Llyn Padarn yn ardal Llanberis i ddod i Sioe Bioamrywiaeth Llyn Padarn ddydd sadwrn, 7 mehefin.

“Gyda’n partneriaid, rydym yn cynnig cyfle i bobl gael cipolwg ar sut rydym yn gweithio gyda’n gilydd i ofalu am y llyn a’i fywyd gwyllt, a beth allant wneud i’n cynorthwyo i warchod Llyn Padarn.” Meddai Emma Edwards-Jones, Rheolwr Prosiect ‘Caru ein Llyn’.

Cynhelir y digwyddiad rhad ac am ddim hwn yng Nghanolfan Llanberis rhwng 10.30 yb a 2.30 yh, a chynigir gweithgareddau ymarferol i’r teulu cyfan:

- Rhowch gynnig ar ‘Yr Het Ddraenio’ i geisio adeiladu sustem draenio ar gyfer pentref Llanberis.
- Dewch i gwrdd efo’r pysgod a gwerthfawrogi harddwch y Torgoch, a dysgu pa waith sy’n digwydd i’w warchod.
- Ymwelwch a gwaith trin dwr gwastraff Llanberis; cyfle anghyffredin efallai, ond mae’r gwaith yn chwarae rhan hanfodol er lles Llanberis. Bydd ymweliadau am 11.30 neu 1.00.

“Efallai fod ymweld a gwaith trin dwr gwastraff yn ymweliad lleol digon annisgwyl, ond bydd yn gyfle unigryw i ddeall sut mae’r £2.5 miliwn a fuddsoddwyd yma yn ddiweddar gan Dwr Cymru wedi ei wario, a sut mae’n gweithio i warchod y llyn,” meddai Emma.

Sefydlwyd Prosiect ‘Caru ein Llyn’ i weithio gyda phreswylwyr a busnesau lleol i sicrhau y byddwn yn gwneud popeth a allwn i warchod ansawdd dwr y llyn. Mae’r Sioe Bioamrywiaeth yn fenter ar y cyd gan Caru ein Llyn, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru, Afonydd Cymru a Pharc Gwledig Padarn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar dudalen Facebook Cymunedol ‘Caru ein Llyn’ (chwiliwch am Llyn Padarn) ac ar lein yn www.loving-our-lake.org

Un funud fach ...

GWYLIADRA

‘Be di vacation a staycation yn Gymraeg?’ oedd un cwestiwn a glywais ar y radio’n ddiweddar. Mae’r naill yn cyfleu gwyliau mewn gwlad arall a’r llall yn cyfleu gwyliau yn ein gwlad ein hunain. A dyna ddechrau meddwl; os yw vacation yn cyfleu ‘gwylia dramor’, beth am ‘gwylia dra’ am staycation? Ac roeddwn i’n eitha’ balch o’r cynnig. Ond dyna’r peryg o hyd wrth gwrs – gwirioni efo’n syniadau ein hunain, a meddwl eu bod nhw ganmil gwell nag ydyn nhw mewn gwirionedd. Fwy na thebyg bod gwell gair i’w gael yn barod am staycation ond nad ydw i (na dyn y radio) yn gyfarwydd ag o. Ac os nad oes gwell gair, bydd rhywun wedi ei fathu cyn hir. Ond mi rydw i, wrth gwrs, yn dal i feddwl bod ‘gwylia dra’ yn agos ati!

Fe allwn ni syrthio i’r un bai gyda phob math o bethau eraill. Mae Cwpan y Byd ar fin cychwyn, ac wrth i ni wyllo’r gemau bydd gan lawer ohonom farn am hyn a llall ac arall. Mi fyddwn ni’n proffwydo pwy fydd yn ennill gemau. Mi fyddwn ni’n dweud ein barn am dactegau’r gwahanol dimau. Ac mi fyddwn ni’n gwybod yn well nag ambell i reolwr pwy ddylai a phwy na ddylai fod yn chwarae.

Ond mwy difrifol o lawer yw’r duedd i feddwl gormod o’n syniadau ein hunain pan ddown i drafod crefydd. Ers canrifoedd, mae rhyddid crefyddol wedi cael ei ddiogelu yn y wlad hon. Hir y parhaed felly, oherwydd fe ddylai pobl fod yn rhydd i gredu beth a fynnan nhw. Ond nid yw dweud hynny’n golygu ein bod yn derbyn bod crefydd a phob syniad crefyddol ar yr un gwastad. Nid yw gwarchod hawl pobl i gredu beth bynnag sy’n mynd â’u ffansi’n golygu ein bod yn derbyn bod pob credo a syniad cystal â’i gilydd. Oherwydd y mae, yng ngolwg y Cristion beth bynnag, y fath bynnag â gwirionedd sydd uwchlaw i’n syniadau a’n damcaniaethau ni ein hunain. Ac i’r Cristion, mae’r gwirionedd hwn yn yr Arglwydd Iesu Grist ac yn y Beibl, neu yn y Gair a ddaeth yn gnawd ac yn y Gair ysgrifenedig. Nid gwirioni ar ein syniadau ein hunain a wnawn fel Cristnogion, gobeithio, ond ymdrechu o hyd i ddeall beth y mae Duw, trwy ei Fab ac yn ei Air, yn ei ddweud wrthym ynglŷn â’r ffordd ato Ef a’r ffordd i fyw.

Ond gwaeth o bosibl na meddwl gormod o’n syniadau ein hunain yw meddwl gormod ohonom ni ein hunain. Ac mae hynny’n sicr yn fagl hawdd syrthio iddi: meddwl ein bod ni ein hunain yn well nag ydym. Mae’r Efengyl, gobeithio, yn ein harbed rhag hynny gan ei bod yn dangos yn eglur mai pobl sy’n bell o fod yn dda ydym. Ond i bobl sy’n deall hynny, ac yn ymwybodol o’u hangen am faddeuant, yr Efengyl yw’r newyddion da bod Duw yn ein derbyn er gwaetha’r cwbl.

JOHN PRITCHARD

Dylan Griffith
Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu Yr Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd

CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrhaethwch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL



Mae dynes ifanc o Wynedd wedi derbyn cefnogaeth ariannol gan brosiect arloesol Llwyddo'n Lleol.

Derbyniodd Cara Edwards, 19 oed o Lanrug fwrsariaeth gan Llwyddo'n Lleol i ddatblygu ei diddordeb mewn pobi cacennau i'w theulu a ffrindiau yn fusnes; mae busnesau lleol wedi dangos diddordeb yn gwerthu ei chynnyrch yn barod.

Mae Llwyddo'n Lleol yn brosiect sydd yn cael ei arwain gan Gyngor Gwynedd, ar y cyd gyda Chynghorau Môn, Conwy a Dinbych i geisio annog diwylliant o fentro ymhlith pobl ifanc 11-19 oed.

Mae'r prosiect, sydd wedi cael ei gefnogi'n ariannol gan Gronfa Gymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd, yn cynnwys amrywiaeth o raglenni i feithrin hyder pobl ifanc yn yr hyn

Llwyddo'n Lleol yn pobi llwyddiant i ddynes ifanc

y gallan nhw ei wneud i gael gwaith yn eu cymunedau – a'u hannog nhw i ystyried hunangyflogaeth fel dewis ymarferol am yrfa.

Derbyniodd Cara fwrsariaeth o £1,000 gan Llwyddo'n Lleol i sefydlu Cacenni Cara.

Dywedodd Cara: "Diolch i fwrsariaeth Llwyddo'n Lleol rwyf un cam yn agosach i wireddu fy mreuddwyd o ddechrau fy musnes pobi cacennau fy hun.

"Mae'r fwrsariaeth wedi fy ngalluogi i ddilyn cwrs hylendid bwyd yn Egin Cegin ym Motwnnog am ddim yn ogystal â phrynu offer oedd angen arnaf i bobi cacennau i'r ansawdd gorau. Mi fydd cael profiad o bobi mewn cegin fasnachol yn brofiad gwerth chweil."

Mae Egin Cegin, a gaiff ei gefnogi drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru gan Bartneriaeth Economaidd Gwynedd (PEG), yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd ym Motwnnog yn ddiweddar i ddarparu cyfleon i bobl leol ddatblygu syniadau yn y maes cynhyrchu bwyd. Cyllidwyd y prosiect Egin Cegin hwn drwy Gynllun Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig.

Meddai'r Cynghorydd John Wynn Jones, Aelod Cabinet Economi Cyngor Gwynedd:

"Mae dyfodol economi'r gogledd yn dibynnu ar sicrhau bywoliaethau da i'n bobl ifanc fel bod ganddyn nhw'r dewis o aros yn eu cymunedau.

"Mae Llwyddo'n Lleol yn gwneud cyfraniad amhrisiadwy tuag at sicrhau bod gan bobl ifanc Gwynedd y sgiliau er mwyn ateb gofynion cyflogwyr yn ogystal â'u hannog nhw hefyd i ystyried cychwyn eu busnesau eu hunain.

"Byddwn yn annog unrhyw berson ifanc gyda syniad am fusnes neu fenter gysylltu gyda Llwyddo'n Lleol i weld os oes modd datblygu eu syniad ymhellach gyda'u cymorth nhw yn union fel mae Cara wedi gwneud."

Am fwy o wybodaeth am Llwyddo'n Lleol ewch i www.llwyddo-potensial.co.uk neu cysylltwch â Nia Medi Williams drwy e-bostio LlywddonLleol@gwynedd.gov.uk neu ffoniwch 01286 679867.



E. W. Pritchard

Trefnwyr Angladdau

CENTRAL GARAGE
LLANBERIS

FFON- (01286) 870202

CHIROPODYDD

RICHARD THOMAS SRCh/HPC

GALWADAU I'R CARTREF

Cysylltwch Symudol 0797 631 6487 • Tŷ 01758 612384

30 MLYNEDD
o waith yn y
GWASANAETH
IECHYD



Ar ben arall i'r lein

Pwy mewn difri fuasai wedi dychmygu y buasai wedi cymryd dros 22 mlynedd i gael gweld rhyw ychydig o oleuni ar ddiwedd y twnnel problemus ble mae problemau llygredd Llyn Padarn wedi bod yn gorwedd. Er bod y problemau wedi bod yn ddigon clir i pawb dros yr holl amser, yn anffodus 'rydym yn byw mewn rhyw oes ble mae bron i bob rhan o'n bywydau yn cael eu rheoli gan ddeddfau neu reolau sydd yn cael eu penderfynu gan rhyw arbenigwr neu'i gilydd. Ac yn achos Padarn mae pob math o arbenigwyr dan haul wedi bod yn dadlau nad oedd dim problem yn bod ac mai ni, y dibrofiad, oedd yn dychmygu popeth.

Fel y gwyr pawb sydd â diddordeb yn y fro 'roedd y gymdeithas 'sgota wedi gofyn i'r Uchel Lys am Adolygiad Barnwrol ar y dull yr oedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dehongli a gweithredu ar ddeddfau niwed amgylcheddol. Roedd y cyrff perthnasol, sef Cyfoeth Naturiol Cymru, Dwr Cymru a Llywodraeth Cymru am amddiffyn eu gweithredu i'r carn - sefydlwyd dyddiad i'r achos sef 1 - 2 Mai eleni yn Wrecsam. Rhyw ychydig ddyddiau cynt fe ddisgynnodd Cyfoeth Naturiol Cymru ar eu cleddyf a derbyn gofynion y gymdeithas. Roedd y ddau gorff arall yn dal yn gadarn eu gwrthwynebiadau, hyn fodd bynnag tan 8.00 yr hwyr ar 30 Ebrill, pryd y derbyniwyd galwad eu bod hwythau hefyd yn cytuno i ofynion y clwb.

Mae gennyf rhyw deimlad y buasai'r barnwr wedi bod y go hallt ei feirniadaeth os buasai'r ddau sefydliad yma wedi gwastraffu amser y llys gyda amddiffyniad mor ddi-sail.

Be sydd wedi newid? medda chwi. Wel, fel ag yr oedd pethau 'roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal ymchwiliad i lygredd Padarn gyda dyddiad ei ystyriaethau ond yn dechrau o Ebrill 2009. I fod yn deg fe ddatgelwyd yn eu penderfyniadau fod Dwr Cymru yn rhannol gyfrifol am y llygru, ond ni roddwyd unrhyw orfodaeth ar y cwmni i wella'r sefyllfa. Dyma oedd sail yr achos, gan fod Deddf Erwop i fod wedi cael ei mabwysiadu gan ein llywodraeth ac i ddechrau bod yn weithredol o Ebrill 2007, ac nid o Ebrill 2009. Felly Ebrill 2007 ddylai fod wedi bod yn ddyddiad cychwynnol i ymchwiliad CNC.

Mae'r dadlau dros dyddiadau drosodd o'r diwedd gyda phawb yn cytuno i ymchwiliad newydd i ddechrau ar Ebrill 2007. Pwysigrwyd hyn yw fod y dyddiadau yma yn caniatáu edrych ar unrhyw niwed amgylcheddol sydd wedi dechrau cyn Ebrill 2007 ac sydd yn dal i barhau. Mae hyn, wrth gwrs, yn agor y drws i edrych ar broblemau llygredd carthffos ond hefyd y niwed mae colli Llyn Peris, Afonydd Y Bala, Hwch, Dudodyn a rhan fawr o'r Peris wedi ei wneud i gynefin a magwraeth y torgoch. Mae'r ymchwiliad yma i fod i'w gynnal cyn gynted a bo'r modd, a gwir obeithir y bydd y canlyniadau i law o fewn rhyw chwe mis. Ond, wrth gwrs, gan bod yr awdurdodau wedi cael eu anafu a chael trwyn gwaedlyd iawn, does dim i ddweud na fydd canlyniadau yr archwiliad newydd yn dangos dim byd ychwanegol i'r gwaith gwreiddiol. Os fel hyn y bydd pethau - wel - dyma fydd sylfaen achos llys arall!!

Rwyf wedi gofyn am gael cyfarfod o Fforwm Padarn ar frys, gyda'r gobaith o gael cytundeb ar drefnu ffordd i wella gweddill y pysgodfa, gan fod y brithyll brown, eog ar sewin yn ogystal â'r torgoch wedi cael eu heffeithio'n ddifrifol gan y problemau.

Gwelir hefyd fod rhan arall o frwydr y gymdeithas i wella safon ein



Ifan Jones, Llanrug, a brithyll braf o Stablau.

dyfroedd ar waith, mae cytundeb 44 wythnos yn rhedeg yn esmwyth ers rhai misoedd i ail adeiladu gwaith trin carthion newydd yng Nghrawia. Bydd hwn yn waith modern effeithiol a fydd yn glanhau'r Seiont yn llawer gwell na'r hen drefniant. Does dim dwywaith nad ymdrech y clwb a'n cynrychiolwyr Fish Legal sydd wedi sbarduno'r gwaith yma. Yn ogystal, mae uwchraddio pibellau carthffos sy'n rhedeg dan ffordd Caeathro i Peblig ar ddechrau, bydd hyn hefyd o gymorth arbennig i lanhau rhan isaf o'r afon. Mae dros 20 mlynedd o ymgyrchu o'r diwedd yn dwyn ffrwyth. Hoffwn ddiolch o galon i bawb sydd wedi ein cefnogi dros y blynyddoedd, yn enwedig ein Aelod Cynulliad, Alun Ffred Jones. Wrth droi at y pysgota, y dynfa ar y foment yw Llyn y Dywarchen gan fod stocio brithyll yr enfys yn go boblogaidd, mae'n amlwg nid yn unig gan bysgotwyr â genwair, ond mae ambell i un pluog yn ymweld yn gynnar y bore. Mae eisiau holi'r criw sy'n ymwneud â Gweilch y Pysgod yn Nyffryn y Glaslyn os y byddent yn cysidro ymaelodi'r adar â'r Gymdeithas, gan eu bod i'w gweld yn cael gwell hwyl na'r genweirwyr!! Ia cofiwch, mae pob 'sgodyn mae'r adar yn ei gael yn costio rhwng £2.50 a £5 i'n aelodau. Os am eu gweld yna ychydig yn dilyn toriad gwawr yw'r amser i fod yno.

Yn ogystal â'r Gweilch mae'r aelodau byth a beunydd yn dod ar draws rhai yn pysgota heb drwyddedau a hefyd yn erbyn bob rheol. Rwy'n synnu'n fawr faint sy'n dweud eu bod yn methu darllen ac felly ddim yn gwybod be mae'r arwyddion mawr ar fynedfa'r llyn yn ddweud. Ffodus felly fod ein aelodau yn llythrennog ac wedi codi rhifau eu cerbydau imi eu hanfon ymlaen i'r awdurdod afonydd. Does eisiau gras â rhai 'dwch? Mae'n dda gweld mwy o ieuentid y fro yn cymryd diddordeb yn yr enwair. Mae Ifan Jones, Llanrug, yn cael hwyl arbennig fel y gwelir gyda brithyll braf o Stablau.

Mae ein aelodaeth o Ymddiriedolaeth Afonydd Conwy Clwyd a Gwynedd yn ein galluogi i fanteisio ar adnoddau a chefnogaeth eang i godi diddordeb y bobl ifanc. Esiaml dda o hyn yw'r cynllun deori a magu eog sydd wedi bod ar waith yn Ysgol Bontnewydd, Diolch arbennig i aelod o'r Pwyllgor Gwaith, Hefin Hughes, Caeathro a Richard Pierce o Gyfoeth Naturiol Cymru am roi cyflwyniad bywiog i'r disgyblion a hefyd goruchwyllo'r pysgod bach tra'n deori.

Felly dyna ni am y tro, a gobeithio cael cymhariaeth y mis nesaf o rai o bysgodfeydd yr Alban gyda be sydd yma i ni.


Huw Price Hughes.



Disgyblion Ysgol Bont yn frwdfrydig dros ben yn holi am y cynllun.



Hefin Hughes, Caeathro a Richard Pierce, Cyfoeth naturiol Cymru yn Ysgol Bontnewydd yn cyflwyno Cynllun Cylch Bwyd yr eog i ddisgyblion Ysgol Bontnewydd.



Englynion diolch i H.P. Hughes

*Ysgrifennydd Cymdeithas Pysgotwyr Seiont Gwyrfai a Llyfni.
Bu yn gweithio yn ddi-ildio am ugain mlynedd i 'lanhau'
amgylchedd Llyn Padarn a sicrhau dyfodol y Torgoch.*

Nid egwan 'r weledigaeth - i achub
torgochiaid - rhywogaeth
yn y gwyllt, rhag dyfod gwaeth
i linach eu holyniaeth.

Torgochiaid a'i plaid, yn y plwy' – a hawl
hir eu hil i dramwy
hen ddwr eu nythleoedd hwy -
o ryd fydd anllygradwy.

Clywch y gân fel clych y gwynt - hen gychwyr
bri'r torgochiaid ydynt
yn y cof, 'O boed fel cynt;
rhoddwyd ein seiliau trwyddynt.

Yn unsain, mae criw'r Rowlandsiaid, - yma
Bob, Brymar, – tiwtoriaid
i ni'n rhodd, sy bron o raid
heno'n Badarn-estroniaid.

Huw a'i aberth roes obaith - ef a'i sêl
fu saer adeiladwaith
herio brad yr anfadwaith...
haint a maint difrodi maith.

I'r her, ei amser a roes, - hyn ddygodd
o ddwy-ddegawd o'i einioes,
hwn ein craig drwy'r gwyntoedd croes
yn cyfarth – Gelert cyfoes.

Etifeddion yr eonau – yn gli
dan glo o'r rhewddorau;
a dyri y dyfnderau
p?er rhain fydd yn parhau!

Norman Closs.

dyri = cerdd
dyri = darn o farddoniaeth.

CRONICLO'R TYMOR

Gydag ambell i rownd derfynol y cwpannau i'w chwarae mae tymor pêl-droed arall wedi rhygnu i ben. Diddorol sylwi fod Eithin Duon – fel Nantporth - wedi denu nifer o rowndiau terfynol timau lleol. Mae hyn yn glod i'r tirmyn ac hefyd y safonau oddi ar y cae.

Ar y cyfan bydd y timau lleol yn falch o'u perfformiadau. Yn sicr bydd Llanrug yn fodlon o gipio Tlws C.P.D. Cymru, ac efallai o orffen yn drydydd yn y gynghrair tu ôl i Ddinbych a Threffynnon, dau dim cryf iawn. Ni allai rhywun lai na sylwi mai siomedig oedd canlyniadau Llanrug wedi cipio'r cwpan 'fawr' a chollwyd ambell gyfle i gipio mwy o dlysau. Yn sicr, nid oedd Llanrug ar eu cryfaf ym mhob gêm tuag at ddiwedd y tymor. Boed hynny, bydd Aled Owen yn falch o'r hogiau ac erys cofion y diwrnod aeth Llanrug i'r Rhyl yn hir yn y cof. Cefais fy atgoffa gan aelod o bwyllgor Llanrug i gofnodi campau tîm dan 16 Llanrug, nid yn unig am eu llwyddianau, ond am eu dull o chwarae creadigol. Cadwn olwg ar ddatblygiad y tîm yma.

Os 'ymlacio' wnaeth Llanrug, yna tanio fel rhyw hen 'Locomotif' gwnaeth criw Maes Padarn. Yn flynyddol rhywsut mae Llanberis yn cyrraedd diwedd tymor gyda llond het o gemau mewn llaw. Eleni caed rhediad rhyfeddol ar gaeau sych diwedd tymor a gorffen yn chweched yn y tabl terfynol. Un pwynt diddorol a gyfeiriais ato o'r blaen yw'r ystadegyn goliau dros dymor Llanberis. Sgorio 69 ildio 65. Ai awgrym sydd yma – er mor bleserus i'r gwyliwr weld digon o gyffro 'o flaen gôl' – fod angen tynhau y dull o chwarae?

Yng Nghyngrair Gwynedd cymysglyd braidd fu tymor Waunfawr. Cafwyd ambell i ganlyniad da a rhediad cwpan, ond diffyg cysondeb oedd yn amlwg a cholli ambell i gêm i gôl hwyr. Serch hynny mae ambell un yn y tîm yn gwybod sut i rwydo – elfen mae nifer o dimau yn chwilio amdano.

Yng Nghyngrair Arfon doedd dim dal y Felinheli yn y diwedd er bu Llanberis yn geffylau blaen am gyfnod. Er bydd Llanberis yn fodlon wedi cyfle i gipio cwpan Moorings. Yn y drydedd safle roedd ail dîm Llanrug, a bydd ambell aelod o'r tîm yma yn gobeithio gweithio ei ffordd drwodd – yn ôl trefn y clwb – i'r tîm cyntaf.

BETHYW'R ODDS?

Yr wyf newydd agor fy e-bost ac fel arfer roedd yr adran spam yn frith o sothach. O'r deg neges roedd chwech yn cyfeirio, neu yn fy ngwahodd i ymuno a chwmnïau 'betio'. Roedd rhai yn hael yn cynnig 'free bet' i mi – hyd at £50 - ar gyfer fy nghynnig cyntaf. Chwarae teg iddyn nhw. Tipyn gwahanol i swllt bob ffordd yn Bob Jones ers talwm, neu traddodi am y Grand National fel buaswn i'n dallt!

Y rheswm i mi godi'r testun yw'r twf sylweddol yn y cyhuddiadau o amharu ar ganlyniadau gemau – yn enwedig pêl-droed a chriced. Os gwir y ffeithiau yna mae'r gwirddroi canlyniadau yn frith mewn cystadlaethau fel yr IPL. Yma gellir gosod bet ar sgor unigolyn, sawl ergyd i'r ffin, cyfartaledd sgorio y pelawd etc. Mae'r un peth yn wir mwn pêl-droed, sawl cic gornel, pwy i sgorio nesaf.

Eisioes cafwyd cricedwyr amlwg fel y diweddar Hansie Cronjer, a chyn gapteiniaid Pacistan ac India yn euog. Mae bys yn cael ei bwyntio i gyfeiriad Seland Newydd hefyd. Mae'n amlwg hefyd fod ambell un o winyddwyr y gem yn ymwneud â'r sgam.

Yn ddios mae hyn yn deillio o or-reolaeth y sianeli teledu ar fyd y campau. Y mae'r rhifau gwyliwyr yn eu miliynau a'r oes electroneg mor rhwydd i fetio ar lein. Duw a wyr pa galedi mae'r cynnydd sylweddol yma mewn betio yn gael ar sawl aelwyd ledled y byd. O gofio y prisiau afresymol o uchel a godir i fynychu gemau erbyn heddiw onid oes gennym ni y cefnogwyr hawl i ddisgwyl gêm wedi ei chynnal yn onest.

TLWS YRECO

Ydy'r timau'n barod. Eleni fe chwaraeir y gystadleuaeth DAN 9 ar NOS IAU, GORFFENNAF 3ydd a'r gystadleuaeth DAN 11 ar NOS WENER, GORFFENNAF 4ydd. Eisioes mae clwb Llanrug wedi rhoi gwahoddiad i'r gystadleuaeth dan 9 i'w chwarae ar Eithin Duon. Mae cyfle i unrhyw glwb arall yn y fro gysylltu a mi i wahodd y gystadleuaeth dan 11. Y cyntaf i'r felin!

Fel arfer y tâl cystadlu yw £10 y tîm. Yr arian yma a ddefnyddir i bwrcasu'r tlysau. Yr oedd rhai timau yn hwyr iawn yn talu y llynedd – yn bell wedi'r gystadleuaeth. Nid peth pleserus yw gorfod ffonio a ffonio i geisio cael ymarteb, a hynny mewn cystadleuaeth sydd yn dynesu at ei 40 oed. Pan fyddaf wedi cael rhestr y timau yna byddaf yn cysylltu yn unigol gyda'r manylion. Rhowch felly rif cyswllt i mi. Edrychwn ymlaen i wledd o bêl-droed.



Gwesty Dolbadarn
Llanberis

Ffôn-(01286)-870277

Triathlon Llanc y Llechi – a’r llancesi yn amlwg!



Triawd Llanrug

Am y tro cyntaf yn hanes y gystadleuaeth cynhaliwyd rasys ar y Sadwrn a’r Sul, ac yr oedd y drefn newydd yn llwyddiant digamsyniol. Unwaith yn rhagor, y cwmni lleol, Camu i’r Copa (Always Aim High) oedd yn trefnu’r digwyddiadau, a rhaid eu canmol am waith trylwyr a phroffesiynol, heb anghofio y fyddin o wirfoddolwyr a fu wrthi’n brysus dros y penwythnos yn paratoi, yn stiwardio, yn bwydo ac yn clirio popeth ar y diwedd! Cynhaliwyd y ‘sbrint’ ar ddydd Sadwrn, gyda dros bedwar cant a hanner yn cystadlu. Cychwyn drwy nofio yn nyfroedd oer Llyn Padarn cyn beicio i Ben y Gwryd ac yn ol a diweddu gyda ras drwy goed Parc Padarn. Doedd neb lleol yn fuddugol eleni, ond roedd Phil Lynes o Lanrug yn yr wythfed safle. Braf oedd gweld merched lleol yn cael llwyddiant personol, gyda Bridget Ripley o Glwb Triathlon Padarn yn ferch gyntaf dros 50 oed. Daeth Emily Wood, Llanberis yn bumed ferch dros 40 oed a Rhian Thomas, Llanrug yn chweched ferch dros 40 oed yn ei chystadleuaeth gyntaf. Cwblhaodd Manon Lloyd Williams, Llanberis ei thriathlon cyntaf hefyd, gyda Nicola Griffiths, Llanrug yn gwireddu ei breuddwyd o gystadlu – a gorffen- pob un o’r tair triathlon (Tywod Llanddwyn ac Eira Capel Curig). Ddydd Sul roedd y triathlon llawn, gyda dros fil yn barod i herio tirwedd Eryri. Daeth 25 o dimau hefyd, gyda thri aelod i bob tim – un i nofio, un i feicio ac un i redeg. Roedd y tywydd, fel ar y



Phil Lynes a Huw Brassington (enillydd y llynedd)



I mewn a nhw!

diwrnod blaenorol, yn hynod braf, ond efallai i’r gwynt cryf greu problemau i’r beicwyr ar eu taith drwy Ddyffryn Mymby a Nant Ffrancon. O Gae’r Ddol roedd ras chwe milltir yn eu hwynebu ar hyd glannau Llyn Peris cyn dringo drwy hen chwarel Dinorwig a gorffen drwy goed Parc Padarn. Fel ar y Sadwrn, ddaeth neb lleol i’r brig, ond roedd Phil Lynes, Llanrug o fewn yr hanner cant cyntaf. Ia, coeliwch neu beidio ond roedd yn cystadlu eto ar yr ail ddiwrnod! Dwy driathlon mewn dau ddiwrnod a safleoedd anrhydeddus iawn yn y ddwy. Llongyfarchiadau mawr iddo. Does ryfedd ei fod wedi ei ddewis i gynrychioli Prydain yn Awstria yr haf hwn. Tim Triawd Llanrug oedd y tim lleol gorau. Llinos Jones, Tanycoed oedd yn nofio iddynt a daeth i mewn yn y pedwerydd safle. Roedd yn trosglwyddo’r baton i’w gwr, Neil oedd yn beicio, gan ddiweddu yn y seithfed safle. Dyfed Thomas, Llanrug oedd eu rhedwr, a daeth yn gyntaf o holl redwyr y timau, gan sicrhau’r pumed safle i’r tim. Ond cyflawnodd Dyfed gamp arall hefyd. Fel rhan o’r ras redeg roedd Milltir y Chwarelwr. Roedd pob un o’r rhedwyr yn cael eu hamseru ar filltir o ddringo drwy’r chwarel. Daeth Dyfed yn unfed ar ddeg o’r mil a mwy o gystadleuwyr, lai na munud tu ol i’r enillydd. Mae hen edrych ymlaen am y flwyddyn nesaf rwan!

dynion dros 50 oed a thros 60 oed. Ar gyfer Ras Moel Eilio roedd y tywydd yn echrydus. Cefais y pleser (!!) o stiwardio ar gopa Moel Cynghorion. Bu fy nillad glaw yn hongian yn y garej am wythnos yn ceisio sychu! Ond diolch am gwmni Edwin o Lanberis a’i babell bob tywydd. Mentrodd dros hanner cant i herio’r elfennau, a llwyddodd bron iawn y cyfan ohonynt i gwblhau’r cwrs. Dyfed Thomas, Llanrug oedd y rhedwr lleol cyntaf, gyda Noel Craine, Llanberis yn ennill yr adran i ddynion dros 50 oed a Maggie Oliver y ferch gyntaf dros 60 oed. Wythnos yn ddiweddarach, mewn tywydd llawer iawn gwell, daeth Mathew Roberts, Llanberis yn drydydd yn Ras Cader Idris, gyda Noel Craine unwaith eto yn fuddugol yn yr adran dros 50 oed. Bydd dwy arall o gyfres Rasys Nos Fawrth wedi bod erbyn i’r rhifyn hwn eich cyrraedd, sef y Gogarth a Phenmaenmawr.

RHEDEG MYNYDD

Mis o lwyddiannau eto i redwyr y fro – yn bennaf ar y mynyddoedd, ond gyda rhai ar y ffyrdd hefyd. Yn Ras 10c Rhostryfan (sydd bron a bod yn ras fynydd!), daeth Dewi Owen a Dyfed Thomas yn ail a thrydydd, ac Arwel Lewis yn gyntaf dros 50 oed. Yn Ras Moel y Gest, daeth pump gwobr gyntaf i’r fro: Jenny Heming, Llanberis, yn ferch gyntaf (ac yn gyntaf dros 40 oed), Bronwen Jenkinson, Waunfawr, y ferch gyntaf dan 18 oed, a Maggie Oliver, Dinorwig y ferch gyntaf dros 60 oed. Arwel Lewis, Bethel, a Dafydd Thomas, Llanrug ddaeth yn gyntaf yn adrannau

Chwaraeon

Pŵl Penbont yn chwalu pawb!



Mae tim pŵl Tafarn Penbont, Llanrug wedi ennill pob tlws a chwpan yr oedd yn bosib iddynt eu hennill y tymor hwn. Dyna 'clean sweep' go iawn – a chryn dipyn o waith polishio i'w wneud i gadw'r cyfan i sgleinio ar lintal ffenestr y dafarn tan y tymor nesa!

Ymhlith y tlysau a'r cwpannau a enillwyd roedd Tarian Goffa John Whitehead sef cystadleuaeth i dim o bump.

Noddwyd y tim gan Irfon Hughes, London Garage, Cwm y Glo

Triathlon Llanc y Llechi – a'r llancesi yn amlwg!

Stori Tudalen31



Llun gan Thomas Owen

Athletwraig ifanc.

Roedd gan Caitlin Forrest reswm i ddathlu ddwywaith yn ystod y mis a aeth heibio. Yn Rasys Traws-gwlad yr Urdd, a gynhaliwyd yn y Faenol i blant ysgolion cynradd Môn a Gwynedd, daeth yn gyntaf o holl blant blwyddyn 4. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddi ennill. Yna'n ddiweddarach, ar benwythnos Triathlon Llanc y Llechen yn Llanberis, daeth yn fuddugol unwaith eto yn ras y plant a gynhaliwyd ar Gae'r Ddôl. Dyma hi'n dangos y tlysau a enillodd yn y ddwy gystadleuaeth.

